TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Gwella Lles yn Nhorfaen

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

CYFLENWI EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 (CC3)

Mawrth 2020

## EIN GWELEDIGAETH I DORFAEN

**Torfaen: Lle diogel, ffyniannus, cynaliadwy ble mae gan bawb y cyfle i fod y gorau medrent**

## GWERTHOEDD EIN CYNGOR

**Teg**

**Effeithiol**

**Cefnogol**

**Arloesol**

# CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair ………………………………………………………… | 4 |
| Part 1. | Cyflwyniad ………………………………………………………… | 5 |
| Part 2. | Adrodd am ein Hamcanion Lles ………………………………… | 7 |
| Part 3. | Dewis a Chyflenwi ein Hamcanion Lles yn y Dyfodol ……..… | 35 |
| Part 4. | Meysydd Newid Corfforaethol ………………………………………… | 37 |
| Part 5. | Cysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol .......……………………… | 41 |
| Part 6. | Adrodd ar ein Cynnydd ………………………………………………… | 44 |

Atodiad 1 ……………………………………………………………………… 45

Ein Hamcan Lles a Gwella …………… Torfaen glân a gwyrdd

Atodiad 2 ...…………………………………………………………………… 48

Ein Hamcan Lles a Gwella ……. codi cyrhaeddiad addysgol

Atodiad 3 ……………………………………………………………………….. 52

Ein Hamcan Lles a Gwella … cefnogaeth i drigolion mwyaf agored i niwed Torfaen

Manylion cyswllt ……………………………………………………………… 56


Mae’r ddogfen hon yn ffurfio Datganiad Lles ac Adroddiad Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,
a baratowyd dan adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
a chyfarwyddyd cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Dyma hefyd Gynllun Gwelliant Blynyddol y Cyngor,
a baratowyd o dan ran un, adran 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
a chyfarwyddyd cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

# Rhagair

Gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Torfaen, i weithio tuag at amcan cyffredin ar gyfer y sector cyhoeddus – i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth graidd y ddeddfwriaeth newydd mae’r egwyddor o gynaliadwyedd, sy’n ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau ein bod yn diwallu anghenion trigolion heddiw heb beryglu rhai cenedlaethau’r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wedi bod yn gatalydd i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, edrych ar rwystro problemau a mabwysiadu dull mwy cysylltiedig. Rydym eisiau gweithio gyda chymunedau lleol i ddod yn fwy ymatebol i anghenion pobl. Rydym yn deall na fydd pobl bob amser yn cytuno gyda’n penderfyniadau, ond os ydym yn gwrando, yn ystyried y dystiolaeth briodol ac yn gweithredu ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu, yna byddwn yn cymryd y camau iawn ar gyfer ein trigolion, eu teuluoedd a’r gwasanaethau maent yn dibynnu arnynt.

Mae'r Ddeddf yn herio cyrff cyhoeddus i fod yn fwy uchelgeisiol ac i feddwl am y ffordd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau. Mae aelodau a swyddogion yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r Ddeddf, ei huchelgais a'u cyfrifoldebau. Does dim pwnc mwy brys yn 2020 na newid yn yr hinsawdd a'r effaith y bydd hyn yn cael ar y byd yr ydym yn byw ynddo. Mae'n iawn felly bod y Cyngor wedi datgan argyfwng newid yn yr hinsawdd. Rhoddodd y datganiad ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu ystyrlon, strategol a thrawiadol Rydym wedi dechrau asesu'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef eisoes i leddfu ar newid yn yr hinsawdd ac wedi dechrau gweithio gydag aelodau mainc gefn ar faint a therfynau'r cynllun. Wrth i'r gwaith yma ddatblygu bydd yn cael effaith pellgyrhaeddol, ar draws Torfaen a thu hwnt.

Mae’r rhagolygon ariannol yn y sector cyhoeddus yn parhau i gynnig heriau, ond mae’r heriau hyn yn dod ag ethos Deddf LlCD i’r golwg yn fanylach. Mae'r dirwedd ariannol yn golygu fod angen i ni fod yn fwy effeithlon yn y ffordd yr ydym yn gweithio, gan rannu'r hyn sydd gennym ni mewn ffordd mor gynaliadwy â phosibl. Serch hynny, gyda chyllideb fwy cadarnhaol ar gyfer 2020/21, rydym wedi gallu dechrau meddwl am fuddsoddiadau wedi eu targedu ar gyfer y dyfodol. Am wasanaethau dichonol tymor hir mae'n rhaid bod gennym weithlu cryf sy'n gallu eu cyflenwi. Mae'n rhaid i ni ddenu a chyflogi pobl ifanc, dalentog Rydym felly 'n cefnogi datblygiad cynllun i'r rheiny sy'n gadael yr ysgol yr ydym yn gobeithio y bydd modd ei sodro a'i ehangu yn y dyfodol fel cyfraniad i gynaliadwyedd ein gweithlu yn y dyfodol.

Mae gweithio tuag at uchelgeisiau Deddf LlCD yn parhau i gyflwyno cyfle a her gyffrous i ni ac i'n partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau i geisio am ddyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy i bobl Torfaen, ble mae gan bawb gyfle i fyw bywydau iach, annibynnol, waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw.





**Y Cynghorydd Anthony Hunt**
**Arweinydd y Cyngor**






**Alison Ward CBE**
**Prif Weithredwr**

# Rhan 1 – Cyflwyniad

Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghyfartaledd o ran iechyd, a swyddi a thwf. I ddelio gyda'r problemau hyn, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfwriaeth yn 2015 sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus ledled Cymru weithio gyda'i gilydd i roddi gwell ansawdd bywyd i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD 2015) yn rhoi dyletswydd ar holl gyrff cyhoeddus i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy – y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I wneud yn siŵr ein bod oll yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith o nodau llesiant ar gyfer Cymru:




*Ffig.1 - 7 Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

Fel corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, mae angen i ni ddangos sut rydym yn cyflenwi gweithgareddau sy'n cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant hyn.

Mae datblygiad cynaliadwy'n gofyn i ni weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'n cynnwys **pum dull o weithio,** y mae angen i ni nawr eu hystyried wrth gymryd penderfyniadau..

O hyn ymlaen, rydym yn gweithio tuag at **…**

- ⇨ Edrych ar y **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion;
- ⇨ Mabwysiadu dull **integredig** er mwyn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar ein hamcanion lles ni;
- ⇨ **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n eu heffeithio;
- ⇨ Gweithio ag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ganfod atebion cynaliadwy a rennir, a
- ⇨ Deall y rhesymau tu ôl i'r problemau i'w **rhwystro** rhag digwydd.

# Ein Gofynion Statudol

Wrth ymgymryd â 'datblygiad cynaliadwy' yn unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**, rydym ym **…**

- Pennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n ein galluogi i gyfrannu fwyaf tuag at y nodau llesiant
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ein hamcanion;
- Cyhoeddi datganiad am ein hamcanion lles sy'n esbonio pam rydym yn ystyried y bydd ein hamcanion lles yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a sut rydym wedi defnyddio'r egwyddor datblygiad cynaliadwy;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cynnydd, a
- Chyhoeddi ein hymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Hefyd, mae angen i ni hefyd fodloni gofynion **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**. Mae hyn yn golygu bod angen i ni **…**

- Gyhoeddi cynllun gwella at y dyfodol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, yn nodi ein hamcanion gwella byrdymor ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, a
- Chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn amlygu ein cynnydd o gymharu â'r cynllun hwn cyn mis Hydref 2019.

**Felly …**

Mae'r ddogfen hon yn cyfuno ein gofynion statudol ac yn cyflawni ein dyletswyddau cyhoeddi statudol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

# Rhan 2 – Adrodd ar ein Hamcanion Lles

**Dewis ein Hamcanion Lles (2018/19)**

Yn Ebrill 2016 bu i ni gytuno ein trydydd Cynllun Corfforaethol (CC3). Mae'n delio â chyfnod pum mlynedd hyd at Fawrth 2021 ac yn cynnwys tair blaenoriaeth, a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan ein cynghorwyr … **…**

- ⇨ **Torfaen Lân a Gwyrdd**
- ⇨ **Codi Cyrhaeddiad Addysgol**
- ⇨ **Cefnogaeth i Drigolion mwyaf bregus Torfaen**

Wrth bennu'r blaenoriaethau hyn, cytunom ni hefyd ar set o ddatganiadau ategol yn disgrifio'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflenwi i drigolion; cynllun i gynorthwyo trigolion i gyflenwi; a'r hyn y disgwylir i drigolion ei wneud eu hunain i helpu gyda chynnydd yn y meysydd hyn.

Mae'r datganiadau hyn yn adlewyrchu ein derbyniad a'r ddealltwriaeth na fedrwn bob amser newid pethau ar ein pennau ein hunain. Mae'n esbonio'n glir ein bwriad i addasu sut rydym yn gweithio gyda chymunedau lleol i greu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy ar gyfer Torfaen.

Credwn y bydd ein blaenoriaethau'n creu dyfodol tecach lle mae pawb yn cynnal cymunedau glanach a gwyrddach, lle mae pobl ifanc yn derbyn addysg o'r safon orau bosibl a lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach, annibynnol, pwy bynnag ydyn nhw neu ble maent yn byw.

Ym Mawrth 2018, nodwyd tri maes sylweddol, ychwanegol fel amcanion lles (gan ychwanegu at y tri a ddewiswyd y flwyddyn flaenorol), pob un wedi ei gysylltu'n glir â'n Cynllun Corfforaethol presennol ac yn cael eu gweld fel rhywbeth sy'n gallu cyflenwi gwelliant sylweddol mewn lles ar draws Torfaen.

## Ein Hamcanion Lles 2018/19

Roedd pob prosiect yn dangos sut roeddem yn bwriadu gwella lles yn Nhorfaen o gymharu gyda'r 3 blaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol. Ein hamcanion lles a ddewiswyd ar gyfer 2018/19 yw:

**… Torfaen Lân a Gwyrdd**

**Amcanion Lles**

- i. Gweithio fesul ardal Strydlun
- ii. Newid ymddygiad tuag at wastraff

**… Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

**Amcanion Lles**

- iii. Adolygu addysg ôl-16 yn Nhorfaen
- iv. Datblygu cynnig lles i bob plentyn

**… Cefnogaeth i Drigolion Mwyaf Bregus Torfaen**

**Amcanion Lles**

- v. Ail-gynllunio Gwasanaethau i Oedolion
- vi. Gofal Cartref Cynaliadwy

**Dewis ein Hamcanion Lles (2019/20)**

Gyda chyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sefydlwyd 7 nod llesiant cyfreithiol y mae gofyn i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar gyfer pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru. Rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd er mwyn eu bodloni. Yn haf 2018 cyhoeddodd BGC Torfaen ei Gynllun Llesiant gan roi manylion sut y bydd ei amcanion yn cyfrannu yn yr ardal leol at gyflawni'r nodau llesiant.

O ganlyniad i gyflwyno'r nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion BGC Torfaen fe ymgymeron ni ag adolygiad o'n blaenoriaethau ein hunain yn y cynllun corfforaethol. Ym Mawrth 2019, ymgymerwyd ag adolygiad er mwyn profi perthnasedd ein blaenoriaethau ni'n hunain. Cadarnhaodd ein hadolygiad bod ein 3 blaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol yn;

1. Dal o angen sylweddol yn Nhorfaen
2. Gysylltiedig yn gryf â 7 nod llesiant cenedlaethol DLlCD, a
3. 7 amcan llesiant a gyhoeddwyd gan BGC Torfaen

Roeddem felly o’r farn bod ein blaenoriaethau presennol (a’n Hamcanion Gwella) yn dal yn berthnasol a dylent lunio’r sylfaen dull diwygiedig o ran pennu ein hamcanion Lles thematig, gan gasglu croestoriad mwy o’r hyn rydym yn ei wneud i gydymffurfio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.

## Ein Hamcanion Lles 2019/20

**… Torfaen Lân a Gwyrdd**

**… Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

**… Cefnogaeth i Drigolion Mwyaf Bregus Torfaen**

**Adrodd am ein hamcanion**

Dewiswyd ein hamcanion mewn meysydd lle rydym yn meddwl y medrwn wneud gwahaniaeth i les lleol, gan weithio gyda phartneriaid a’n trigolion. Rydym wedi meddwl am sut medrwn wneud y mwyaf o’n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol. Ni fedrwn wneud popeth ac mae angen canolbwyntio ein hadnoddau, ond rydym wedi meddwl yn ofalus am ble medrwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i les y bobl sy’n byw a gweithio yn Nhorfaen.

Felly, mae'r tudalennau canlynol yn rhoi;

1. Adolygiad o'r cynnydd hyd yn hyn wrth gyflenwi pob un o'r amcanion sy'n seiliedig ar brosiect yn 2018/19 (sy'n gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol y Cyngor), a

2. Throsolwg o feysydd eraill o gynnydd wrth gyflenwi blaenoriaethau'n Cynllun Corfforaethol (h.y. ein Hamcanion Llesiant newydd ar gyfer 2019/20). Bydd diweddariad mwy cynhwysfawr yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020 a Mawrth 2021 pan fo gofyn i ni roi adroddiad yn statudol ar ein cynnydd.

# TORFAEN LÂN A GWYRDD

## AMCAN LLES – GWAITH SEILIEDIG AR ARDAL STRYDLUN

Ein prosiect i ddarparu gweithrediadau strydlun cylchol, yn seiliedig ar ardal, i gyflenwi gwasanaeth mwy effeithlon, gydag ymateb cyflymach i achosion o dipio

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Ar ôl arolwg cymheiriaid o'r Gwasanaethau Cymdogaeth, penderfynon ni fabwysiadu model o weithio seiliedig ar ardal o fewn y Strydlun. Arweiniodd y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, 'Torfaen lân a gwyrdd' i ni ddewis y prosiect ym mis Mawrth 2017 fel un o'n hamcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2017-18


**Cynnydd hyd yma …**

Rydym wedi parhau i symud ymlaen gyda'n Hamcan Llesiant 'Gweithio Seiliedig ar Ardal yn y Strydlun' ers i ni gyhoeddi ein diweddariad blaenorol yn 'Gwella Lles Torfaen' (Mawrth 2019).

**Grymuso a chyfarparu ein staff i lwyddo**

Mae ein gwasanaeth Strydlun seiliedig ar ardal wedi bod ar waith ers mis Hydref 2016. Ers mabwysiadu'r system newydd, mae ein staff wedi cyflawni gwelliant anferth o ran yr amser a gymerir i ymateb i dipio. Mae staff wedi eu grymuso i gymryd balchder yn eu hardal a phenderfynu pryd mae angen ymweld â mannau lle mae problem yn amlach. Mae ein staff yn aml yn cymryd llun o 'cyn' ac 'ar ôl' o ardaloedd lle mae problem er mwyn cadw cofnodion a rhannu'r wybodaeth gyda'r gymuned. Mae offer newydd wedi ei brynu sy'n addas i system seiliedig ar ardal ac fe'i dewiswyd gydag ymgynghoriad llawn â staff. Trwy gynnwys y staff rheng flaen yn y broses o gymryd penderfyniadau rydym wedi cael derbyniad ehangach o'r system newydd.

Mae cyflwyno ein timau ymateb cyflym sy'n gweithio mewn patrwm shifftiau i weithio saith




*Ffig. 2 - Amser i glirio digwyddiadau o dipio*

diwrnod yr wythnos wedi gwella’r ffigurau tipio anghyfreithlon yn fawr iawn a’r amser ymateb i broblemau a chwynion. Yn 2018/19 fe wnaethom ni glirio 99.03% o achosion o dipio y cawsom wybodaeth amdanynt o fewn 5 diwrnod gwaith, gyda chyfartaledd o 2.2 diwrnod gwaith.

**Cyd-destun Polisi Cynllunio Cymru**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC 10) (2018) yn cyflwyno'r syniad o greu lle, dull cyfannol o ymwneud â chynllunio a dylunio datblygiad a gofod, wedi ei ganolbwyntio ar ddeilliannau cadarnhaol sy'n edrych ar y cysylltiadau rhwng seilwaith gwyrdd a Chymru iachach, fwy llewyrchus - i bobl a bywyd gwyllt. Mewn ymateb, rydym wedi dechrau trefnu'n polisïau, amcanion a rhaglenni i fodloni'r uchelgeisiau creu lle. Canolbwyntio'n bendant ar gynllunio seilwaith gwyrdd a chyflenwi buddion niferus, ymgysylltiad cymunedol, sodro ystyriaethau bioamrywiaeth trwy holl wasanaethau'r Cyngor a newid cyfundrefnau rheoli gofod gwyrdd i greu buddion ehangach.

**Gweithio gyda phartneriaid**

Rydym wedi gweithio gyda Thai Cymunedol Bron Afon i ddatblygu dull cysylltiedig o ran amlder holl weithgareddau gan gynnwys torri gwair, trefniadau glanhau, cynnal a chadw gwelyau o brysgwydd, cynnal a chadw coed a thipio anghyfreithlon. Bydd hyn yn cynnig siop un stop ar gyfer pob cais am wasanaeth a chwynion gan y cyhoedd, a bydd yn arwain at well gwasanaeth yn gyffredinol i holl drigolion Torfaen.

Mae holl dir Torfaen yn cael ei archwilio'n annibynnol er mwyn cynhyrchu'r raddfa glendid. Mae’n bwysig felly ein bod yn parhau i weithio gyda holl dirfeddianwyr yn yr ardal, er mwyn i drigolion Torfaen ddisgwyl lefel gyson o wasanaeth.

I gefnogi’r prosiect seiliedig ar ardal, rydym wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau eraill i helpu i wella’r amgylchedd lleol a chefnogi ein blaenoriaeth gorfforaethol Glân a Gwyrdd. Byddwn yn adolygu sut rydym yn gweithio gyda thirfeddianwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr, i weld ei effeithiolrwydd, a sut gellir ei wella i gynyddu capasiti. Bydd hyn yn arwain at dull cysylltiedig gyda phartneriaid ar gyfer gwella’r fwrdeistref sirol yn ei chyfanrwydd.

Rydym wedi gweithio’n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i roddi i'r BGC y cyngor a’r cymorth y mae eu hangen arno i



*Ffig 3 – Un o’n timau strydlun seiliedig ar ardal*

ddatblygu ei ddull o ddelio â gwytnwch amgylcheddol. Mae'r rhain wedi gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r amgylchedd yn eu darparu ar gyfer lles yn ehangach (iechyd, addysg, datblygu economaidd, cysylltiadau diwylliannol). Yn gysylltiedig â hyn, rydym wedi paratoi drafft Strategaeth Seilwaith Gwyrdd y BGC wedi ei rhannu er mwyn ysbrydoli rheolaeth weithredol o dir ar draws holl gyrff y sector cyhoeddus yn Nhorfaen. Yn hyn o beth, bydd dull seiliedig ar ardal y Strydlun yn darparu'n peirianwaith cyflenwi ar gyfer y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd.

**Gweithio gydag Aelodau Etholedig**
Rydym yn parhau i gwrdd pob chwarter gydag aelodau'r ward ar gyfer pob ardal. Dros y flwyddyn rydym wedi cael lefel uchel iawn o adborth cadarnhaol gan aelodau'r ward a fynychodd y cyfarfodydd. Maent hefyd yn adrodd bod y system newydd yn well gan arwain at lai o gwynion gan drigolion.

Mae'r gweithio ar sail ardal wedi bod yn llwyddiant ac yn cael effaith bendant ar ein cymunedau yn ôl adborth gan aelodau lleol. Mae hefyd wedi cynnal cyflogaeth barhaol i dros 60 o unigolion. Rydym wedi parhau i arolygu rôl y fforymau aelodau seiliedig ar ardal gan ehangu eu cylch gorchwyl i gynnwys bioamrywiaeth yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a gwastraff ac ailgylchu.

Mae'r cyfarfodydd yn helpu i sicrhau gweithio integredig effeithiol o fewn y Cyngor ac yn cynnwys pobl leol trwy hwyluso cyfathrebu rhyngddyn nhw a ni trwy eu haelodau yn y ward.

**Grymuso Cymunedau**
Unwaith eto cynhalion ni ein Gwanwyn Glân Torfaen blynyddol yn 2019, a oedd yn golygu gweithio'n agos â Chadwch Gymru'n Daclus a grwpiau lleol o wirfoddolwyr. Cymerodd dros 300 o wirfoddolwyr ran yn y digwyddiadau a chasglwyd 1,000 o sachau o sbwriel, gan ein helpu i wneud Torfaen yn lle glanach a gwyrddach i fyw.

Fel diolch, ac i werthfawrogi holl waith caled gwirfoddolwyr yn eu cymunedau, cynhaliwyd seremoni wobrwyo ar 21 Tachwedd 2019 yn Siambr y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl. Roedd y digwyddiad ar ffurf Te Prynhawn, gyda. chyflwyno tystysgrifau a phlaciau. Cafwyd derbyniad da i'r noson gydag adborth cadarnhaol ar nifer o safleoedd gwirfoddolwyr ar Facebook.

**Gwreiddio diwylliannau gwaith newydd**
Trwy ailstrwythuro, tynnodd ein gwasanaeth Amgylcheddol (Cefn Gwlad) a Strydlun wasanaethau at ei gilydd i greu arbedion a dull mwy cysylltiedig. Mae ein trefniadau newydd yn parhau i annog cydweithio ar draws y timau, gan alluogi arferion gwaith i gyfuno gyda'n cyfeiriad strategol i gwrdd â'n hamcanion corfforaethol a dyletswyddau deddfwriaethol o dan DLlCD a'r Ddeddf Amgylchedd. Enghraifft o hyn yw'r Strategaeth Coed drafft a fydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar yn 2020.

Mae ein Strategaeth Coed a'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd y cyfeiriwyd ati gynt ill dwy wedi eu cynllunio er mwyn hwyluso cydweithio gwell er mwyn cydbwyso pwysau ar y defnydd o dir sy'n cael effaith ar ein had noddau naturiol yn y tymhorau byr, canolig a hir. Byddan nhw'n cynyddu'n cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd, yn rhoi mwy o gyfle am weithgareddau y tu allan, mynd i'r afael â lefelau cynyddol o ordewdra a phroblemau iechyd meddwl a chyfleoedd i gynhyrchu bwyd lleol. Mae'r Strategaethau SG a Choed wedi eu cynllunio i atal problemau colli bioamrywiaeth trwy arferion rheoli anghynaladwy a lleihau canopïau coed.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar draws awdurdodau lleol Gwent, i gael arian grant i gefnogi Cynllun Gwent Fwyaf Cydnerth (GFC) (sydd â ffocws ar fioamrywiaeth) ac rydym yn aros ar hyn o bryd am gymeradwyaeth o'r Cynllun Grid Gwyrdd Gwent, sy'n golygu cydweithio i wneud y mwyaf o fuddion amlswyddogaethol seilwaith gwyrdd ar draws de ddwyrain Cymru. Bydd Cynllun GFC yn ein galluogi i reoli gwrthdaro sy'n digwydd yn aml rhwng canfyddiad a disgwyliadau'r cyhoedd o ran rheolaeth gofod gwyrdd a'n dyletswyddau cyfreithiol, yn arbennig mewn perthynas â bioamrywiaeth.

**Ffrydiau gwaith newydd**

Yn ddiweddar rydym ni wedi paratoi Strategaeth Sbwriel a Thipio Drafft sy'n ystyried blaenoriaethau a nodwyd gan y cyhoedd trwy ein Dull Dialog o ymgynghori. Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft ar ein tudalen ymgynghoriadau, a bydd adborth cyhoeddus yn bwydo'r strategaeth derfynol. Unwaith y bydd wedi ei mabwysiadu, bydd cydrannau glanhau cylchol yn cael eu cyflenwi trwy ein dull Strydlun sail ardal

Bwriad ein strategaeth sbwriel a thipio yw atal sbwriel a thipio yn hytrach na pharhau i glirio. Bydd y gweithgaredd yn helpu i sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda trwy gynyddu amrywiaeth, cymhwysedd, amrediad, cyflwr a chysylltedd rhwng ardaloedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn elw a'u buddion lles.

Cafodd ein Cynllun Gwydnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau sy'n cyflwyno'n ffordd o edrych ar ein polisi strategol a gweithdrefnau er mwyn sicrhau cydymffurfiad â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, ei fabwysiadau gan y Cyngor ar 9fed Gorffennaf 2019, a thrwy ail-flaenoriaethu adnoddau, penodwyd swyddog i oruchwylio cyflenwi'r cynllun ar draws yr awdurdod.

Yn olaf, rydym wedi gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gorfodol Cymru (CgGC) i sicrhau arian i benodi Swyddog Partneriaeth Natur Leol ar y cyd rhwng Torfaen a Blaenau Gwent, trwy gynllun Partneriaethau Natur Leol Cymru a ariennir gan 'Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)' Llywodraeth Cymru.

**Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …**

Bydd llwyddo gyda'n huchelgais yn gofyn am newid sylweddol mewn trefniadaeth, agwedd a diwylliant a bydd yn cymryd amser. Mae ein gweithio strydlun ar sail ardal a nodwyd uchod wedi bod yn llwyddiant. Serch hynny, mae'n dda pob amser adolygu newidiadau gweithredol, eu heffeithlonrwydd a'u heffaith. Felly, rydym yn gweithio gyda'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) a fydd yn ymgymryd ag adolygiad yn ystod 2020-21 o'r model i nodi gwelliannau pellach i alluogi cyflenwad parhaus yn y flaenoriaeth gorfforaethol hon.

Fel cyngor, rydym wedi datgan Argyfwng Hinsawdd a chafwyd adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol yn Chwefror 2020. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn Datblygu'n



Cynllun Gwaith Argyfwng Hinsawdd a fydd yn cynnwys pob math o bethau gan gynnwys Lleihau Carbon.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n trigolion lleol ar sail ardal i reoli'r strydlun a'r mannau gwyrdd yn Nhorfaen. Byddwn hefyd yn parhau i ddiweddaru'r polisïau amrywiol, gweithdrefnau a strwythurau tîm a ddechreuwyd llynedd, er mwyn sicrhau cydymffurfiad yn y dyfodol gyda nodau a ffyrdd o weithio Deddf LlCD.

Bydd ein cyfeiriad yn y dyfodol yn cynnwys:

- Cwblhau ein Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon a datblygu trefniadau partneriaeth gyda busnesau preifat a'n hysgolion uwchradd a allai leihau sbwriel a thipio anghyfreithlon,
- Adolygiad gweithredol gan APSE o'r ffordd o weithio yn ein gwasanaeth strydlun,
- Ymgynghori ar a chwblhau'r strategaeth seilwaith gwyrdd sengl i gefnogi dull cyson o reoli tir ar draws sefydliadau partner ar y BGC, gan gymryd diwylliannau lleol i ystyriaeth.
- Parhau i arwain ar gyflenwad Cynllun Gwlybtiroedd Cydnerth De Ddwyrain Cymru, gan fesur faint o dunelli o garbon a fydd yn cael eu dal o ganlyniad i adfer y gweunydd mawn
- Dod â newidiadau mewn agweddau a diwylliant yn gorfforaethol ar draws ein sefydliad o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd systemau eco,
- Gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i gyflenwi Cynllun Gwent Fwyaf Cydnerth, a sicrhau arian i gyflenwi Cynllun Grid Gwyrdd Gwent,
- Cwblhau ein Strategaeth Difyrrwch Mannau Agored a fydd yn cefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar ddod,
- Cyhoeddi Strategaeth Coed, Coedlannau a Gwrychoedd a Chynllun Gwaith yn amlygu manteision niferus coed."
- Parhau i beilotio dulliau amgen o reoli glaswelltiroedd mewn rhai ardaloedd nad ydynt yn effeithio difyrrwch, i wella bioamrywiaeth ac eco-gysylltedd, a
- Phenodi Swyddog Partneriaeth Natur Lleol a chefnogi Partneriaeth Natur Lleol Torfaen a Blaenau Gwent i gyflenwi gweithgareddau cymunedol ar sail bioamrywiaeth ar draws ardal y ddau awdurdod.

**<u>Datblygu'n dull o gymmwys trigolion</u>**

Rydym ni newydd ddechrau defnyddio'r teclyn Dialog. Mae'r hyb syniadau ar-lein yma'n rhoi llwyfan agored a thryloyw i bobl gael rhannu syniadau ynglŷn â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Torfaen heddiw. Rydym yn gwybod nad oes gennym bob amser yr atebion i lawer o'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau heddiw a'r unig ffordd y gellir mynd i'r afael â hwy yw pan fydd pawb yn gweithio fel un, rhannu syniadau, barn a heriau fel un gymuned.

Dyna ethos Torfaen Ynghyd - gofod ar-lein lle gallwn ni gynnwys pobl mewn gwirionedd, gan rannu a thrafod syniadau am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Gallwch gymryd rhan ar y llwyfan hwn drwy bori drwy'r heriau, cyflwyno eich syniadau eich hunain neu wneud sylwadau ar syniadau pobl eraill a'u graddio. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynnau neu awgrymiadau, cysylltwch â ni trwy getinvolved@torfaen.gov.uk

Rydym yn gwybod fod gan llawer o bobl syniadau ac rydym yn croesawu pob un. Mae'r safle yma'n rhoi cyfle i drigolion gymryd rhan mewn ffordd hyblyg ac yn gadael i'ch llais gael ei glywed O edrych ar sut yr ydym yn dyrannu cyllideb, at syniadau ynglŷn â'r polisïau yr ydym yn gosod, sut yr ydym yn cymryd penderfyniadau a pha welliannau neu newidiadau yr ydych yn credu y mae eu hangen.






**AMCAN LLES – NEWID YMDDYGIAD TUAG AT WASTRAFF**

- ein cynllun i annog datblygiad cymdeithas carbon isel, hybu defnydd effeithlon o adnoddau, helpu i ddatblygu poblogaeth â sgiliau ac addysg dda sy'n deall effaith amgylcheddol eu gwastraff.

## Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn

Mae pob aelwyd yn Nhorfaen yn cynhyrchu gwastraff. Mae taflu'r gwastraff hwn i ffwrdd nid yn unig yn defnyddio adnoddau gwerthfawr ond mae hefyd yn medru achosi niwed byrdymor a hirdymor i'r amgylchedd.

Mae annog newidiadau cynaliadwy yn ymddygiad ein trigolion ac ymwreiddio arferion lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu yn hytrach na gwaredu yn sicrhau amddiffyniad yr amgylchedd yn yr hirdymor.


Yn ystod 2018/19 ymgymeron ni â nifer o weithgareddau gyda'r nod o gefnogi newid agweddau tuag at wastraff yn Nhorfaen. Arweiniodd y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, 'Torfaen lân a gwyrdd' i ni ddewis y prosiect ym mis Mawrth 2017 fel un o'n hamcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2018-19

## Cynnydd hyd yma …

Rydym yn parhau i symud ymlaen gyda'n Hamcan Llesiant 'Agweddau tuag at Wastraff' ers i ni gyhoeddi ein diweddariad blaenorol yn Gwella Lles yn Nhorfaen' (Mawrth 2019). Rydym yn parhau i gyrraedd targedau gwastraff statudol - 60.5% yn 2018-19 (targed o 58%). O ganlyniad i newidiadau y bu i ni eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym ar y ffordd i gyrraedd dros ein targed o 64% ar gyfer 2019/20.

**Datblygu'n seilwaith**

Rydym wedi sicrhau cytundeb 1 flwyddyn ychwanegol ar gyfer ailgylchu sych wrth ymyl y ffordd, gan ddod ag arian sylweddol i'r adran. Rydym wedi ymgymryd â chaffael cytundebau




*Ffig. 4 - % y gwastraff a ailgylchwyd, ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd*

gwastraff ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol cyfagos, gan gynnwys gwastraff dros ben, gwastraff bwyd a gwastraff gardd. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ar y cytundebau yma ac mae gennym drefniadau rheoli cytundebau ar y cyd mewn grym er mwyn monitro cynnydd. Mae ein partneriaeth gwastraff bwyd rhwng Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy wedi sicrhau a chyflwyno'r un sachau gwastraff bwyd ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi dod ag arbedion a chysondeb o ran neges ar draws y rhanbarth.

Rydym hefyd wedi cael caniatâd cynllunio i ddatblygu safle Tŷ Coch. Mae angen canolfan newydd/estynedig i dderbyn ailgylchu o'r mathau newydd o gerbydau casglu.

Rydym wedi cyflwyno system didoli bagiau newydd yn ein Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Ers ei chyflwyno ym Mawrth 2019, rydym wedi lleihau'n sylweddol faint o wastraff a ddanfonwyd i'w daflu (11,719 tunnell fetrig ar ôl chwarter 3 2019/20, o gymharu â 13,882 tunnell fetrig ar ôl 3ydd chwarter 2018/19) ac rydym yn amcangyfrif y bydd arbedion o dros £80,000 wrth i ni gyflenwi perfformiad ailgylchu gwell. Mae ein cynllun wedi dod â newid mewn ymddygiad ar ran defnyddwyr y Ganolfan Ailgylchu gan ganolbwyntio ar leihau faint o wastraff sy'n cael ei waredu ar y safle.

Yn Ebrill 2019 mabwysiadon ni Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff newydd, ar ôl ymgynghoriad gyda thrigolion ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Strategaeth. Mae hyn yn sefydlu'r flaenoriaeth strategol ar gyfer y dyfodol a Chynllun Gwaith ar gyfer gwastraff hyd ar 2025. Mae'r Strategaeth yn mynd y tu hwnt i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru trwy gyflenwi strategaeth integredig sengl sy'n nodi sut y byddwn ni'n:

- Llwyddo gyda'n gweledigaeth;
- Datblygu'r seilwaith y mae ei angen i wneud hyn;
- Cydweithio ag eraill,
- Ymgysylltu â thrigolion i gychwyn a'u haddysgu a, ble mae hynny'n briodol, cymryd camau gorfodaeth, a
- Gosod nodau Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth galon yr hyn a wnawn.

**Gweithio gyda phartneriaid busnes lleol**

Ym Medi 2019 agorodd FCC Environment, ar y cyd gyda Circulate a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Siop Ail-ddefnyddio yn y Dafarn Newydd



Mae'r siop yn gwerthu eitemau a fyddai fel arall wedi cael eu hailgylchu neu eu gwaredu. Trwy werthu'r eitemau yma i'w hailddefnyddio, rydym yn lleihau faint o wastraff sy'n cael ei ddanfon i'w gladdu ac yn helpu i gefnogi cymunedau lleol a thrigolion a fydd yn elwa o werthiant eitemau cost isel.


Gyda'n partneriaid rheoli gwastraff, FCC Environment, a chwmni lleol, Capital Valley Plastics, rydym yn trefnu prawf o ailgylchu plastig polyethylen dwysedd isel nad oes modd wedi bod hyd yn hyn i ni ei gasglu (i'w ailgylchu). Dyma enghraifft dda o ailgylchu dolen gaeedig, yn yr achos yma dyma'r broses o gasglu gwastraff, ei ailgylchu a'i droi'n rhywbeth newydd, rhwystrau radon, a memrynau cwrs gwrth-leithder

Yn olaf, rydym hefyd wedi gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i hyrwyddo arolwg ar ailgylchu gwastraff bwyd. Mae canfyddiadau'r arolwg wedi eu bwydo i mewn i'n cynllun newid ymddygiad gwastraff bwyd ble rydym yn ceisio adnabod rhwystrau allweddol i ailgylchu bwyd a chamau y gallem eu cymryd i annog rhagor o drigolion i ailgylchu bwyd.

**Datblygu'n staff i wella'r gwasanaeth**

Rydym wedi ymgymryd â phroses recriwtio i gael gwared ar ein dibyniaeth a staff asiantaethau i ofalu am wastraff gwyrdd a gwyliau. Hyd yn hyn rydym wedi recriwtio 31 o staff yn ychwanegol i'r tîm casglu gwastraff. Mae nifer o'n llwythwyr hefyd wedi symud ymlaen at swyddi Arweinwyr Tîm o fewn y tîm Hefyd, rydym wedi gweithio gydag Addysg Oedolion i ddefnyddio gwirfoddolwyr i gael profiad gwaith trwy weithio gyda'r gwasanaeth casglu gwastraff. Mae hyn wedi arwain at waith parhaol i 1 aelod staff a bydd rhagor yn dilyn.

Rydym hefyd wedi recriwtio Uwch Swyddog Prosiect newydd i reoli prosiectau optimeiddiad llwybrau a chaffael cerbydau. Rydym wedi cytuno ar gwmpas gwaith gyda WRAP (Waste Resources Action Programme) ar gyfer modelu optimeiddiad llwybrau ffordd ar gyfer casgliadau ailgylchu gwastraff yn y dyfodol a fydd yn dechrau yn 2022. Bydd hyn yn dod â system gasglu hyd yn oed yn




*Ffig. 5 - Faint o wastraff a gynhyrchir gan bob trigolyn*

fwy effeithlon a fydd yn lleihau milltiroedd casglu ac effaith carbon.

Mae ein swyddogion Polisi Gwastraff a Gweithrediadau Gwastraff yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ein gweithgareddau yn cyd-fynd ag anghenion trigolion. Er bod yr angen i ni gyflawni targedau tymor hir wedi ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd, mae angen hefyd i ni ganolbwyntio ar wella ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei roi gan ein staff casglu. Un enghraifft yw annog ein trigolion i ddefnyddio rhwydau i ddal ei blychau ailgylchu, gan atal eitemau rhag cael eu chwythu o gwmpas y gymuned, ac mae'n helpu i leihau sbwriel ailgylchu. Hyd yn hyn, rydym wedi dosbarthu dros 95,000 o rwydau yn Nhorfaen. Serch hynny, mae mwy o waith i'w wneud i hybu eu defnydd.

**Addysg**

Rydym wedi parhau i gyflenwi ymyraethau addysgol yn ein hysgolion. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at welliannau hirdymor yn y maes hwn. Hefyd, trwy weithio gyda FCC a Capital Valley Plastics, rydym wedi lansio ymgyrch addysg newydd gydag ysgolion i ddangos y niwed mae plastig yn gwneud i'r amgylchedd.

Trwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd ar draws Torfaen ac yn trafod gyda grwpiau cymunedol ac ysgolion. Pob blwyddyn rydym yn trafod gwastraff gyda thua 1,000 o blant yn Nhorfaen trwy fentrau 'Criw Craff' a 'Cadwch fi'n Ddiogel' Trwy dargedu grwpiau cymunedol gwahanol yn cynnwys trawstoriad eang o'r gymdeithas, mae'n ein helpu i gael y neges at y gymuned ehangach.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Thai Cymunedol Bron Afon, Cartrefi Melin, Tai Hafod, a sefydliadau eraill i gyflenwi gweithgareddau ychwanegol ar ymwybyddiaeth wedi eu targedu yng nghymunedau Torfaen. Mae hyn yn cynnwys hysbysu trigolion o fuddion defnyddio'r gwasanaethau ailgylchu presennol, ac annog y defnydd o rwydau.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Ni ellir cyrraedd targed ailgylchu o 70% erbyn 2024/25 heb gydweithio â thimau eraill, asiantaethau a thrigolion. Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol ac adweithiol mewn perthynas â darpariaeth Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y targedau ailgylchu statudol, ond mae'n llawn mor bwysig ceisio ymgysylltu â thrigolion fel sy'n cael ei ddangos gan y Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff.

Bydd ein Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff yn ein galluogi i ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus a deddfwriaeth y llywodraeth. Rydym yn cydnabod nad yw un ateb yn gweddu i bawb a bydd angen i ni, mewn rhai achosion, addasu gwasanaethau i roi'r atebion posibl i drigolion a busnesau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phob rhanddeiliad i geisio cael gwelliannau parhaus.

Atal creu gwastraff yn y lle cyntaf yw'r ffordd fwyaf effeithiol o osgoi colli adnodd gwerthfawr o'n heconomi. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth â thrigolion am faint a'r math o wastraff yn mae eu haelwydydd yn cynhyrchu.

Bydd ein mentrau Addysg ac Ymwybyddiaeth yn canolbwyntio ar annog aelwydydd i ddefnyddio'n gwasanaethau ailgylchu presennol. Bydd lleihau faint o wastraff sy'n cael ei daflu'n helpu i leihau symudiadau cerbydau, allyriadau a lleihau'r angen am gynhyrchu bwyd/nwyddau diangen

Yn ystod 2020-21 byddwn yn symud ymlaen gyda chyflwyno'r Cynllun Gwaith yn y Strategaeth. Yn allweddol i hyn mae datblygiad achos busnes i roi argymhellion ar gyfer cerbydau ailgylchu'r dyfodol, ysbrydoli'r model caffael ac, yn bwysig hefyd, edrych ar integreiddio caffael â moderneiddio digidol y gwasanaeth. Bwriad hyn fydd sicrhau effeithlonrwydd gweithredol, data gwell ond, yn fwy pwysig, ceisio gwella profiad y cwsmer pan fo angen iddyn nhw gysylltu â'r gwasanaeth. Ochr yn ochr â hyn bydd gwastraff masnachol hefyd yn cael ei adolygu oherwydd deddfwriaeth newydd ar sut mae'n rhaid i fusnesau reoli eu hailgylchu.

## AMCAN LLESIANT - TORFAEN LÂN A GWYRDD

- ein gweledigaeth i Dorfaen i gyflenwi cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd leol cynaliadwy.

Rydym wedi ychwanegu ffrydiau gwaith newydd i'n Hamcan Llesiant 'Glân a Gwyrdd' yn ystod y flwyddyn. Mae trosolwg o'r datblygiadau allweddol yn ystod 2019/20 isod...

**Ymateb i'r argyfwng hinsawdd**

Rydym wedi ymrwymo i ymateb i'r hinsawdd gyfnewidiol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar sut allwn ni leihau ein hallyriadau carbon trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni ac edrych ar y potensial am greu ynni adnewyddol yn y Fwrdeistref Sirol.

Rydym yn datblygu fferm solar ar hen safle tirlenwi Tŷ Coch, gan greu 3.047MWh o drydan y flwyddyn, gyfystyr â 21.15% o $CO_2$ blynyddol sy'n cael ei gynhyrchu gan adeiladau CBST a/neu gyfystyr â'r trydan ar gyfer 982 o gartrefi. Mae'r negeseuon allweddol yn y cynllun hwn fel a ganlyn:

- Bydd fferm solar Tŷ Coch yn rhoi elw o ryw £835,000 dros gyfnod y prosiect o 35 mlynedd ar ôl costau, er bod hyn yn elw cymedrol iawn ac mae'r modelu wedi bod yn ofalus iawn yn ei baramedrau
- Mae'r rhoi datganiad cyhoeddus o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd trwy ein datganiad Newid yn yr Hinsawdd.
- Lleihau allyriadau i'r grid o ryw 48,140 tunnell fetrig o $CO_2$ dros gyfnod ei oes.
- Rhoi defnydd i ased economaidd segur, tra'n amddiffyn a gwella bioamrywiaeth y safle.

Mae gan ein hadnoddau naturiol ran bwysig wrth helpu i gefnogi'n gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, trwy reoli dŵr yn y dirwedd a lleihau effaith codi tymheredd. Mae coed a llystyfiant hefyd yn helpu i reoli faint o $CO_2$ sydd yn yr atmosffer trwy gloi symiau sylweddol o garbon wrth iddyn nhw dyfu. Mae gan ein tir, yn arbennig tir mawn hefyd ran bwysig i chwarae wrth storio carbon. Trwy gynllun cydweithredol Ucheldiroedd Cadarn De-ddwyrain Cymru, mae gwaith yn mynd ymlaen i fonitro a adfer 3.7 ha o dir mawnog i'r gogledd o Gwmbrân.

**Cysylltu'n gwasanaethau gorfodi**

Rydym wedi achub ar y cyfle, ar ôl penderfyniad Heddlu Gwent i beidio â derbyn cyfrifoldeb am orfodaeth ar gyfyngiadau parcio ar y priffyrdd ar 31ain Rhagfyr 2018, i ddatblygu ein dull integredig ein hunain o orfodi.

Rydym wedi defnyddio trefn gorfodi allanol ar gyfer troseddau sbwriel a rheoli cŵn. Mae aelodau ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Mwy Diogel wedi bod yn weithgar wrth ddatblygu polisi ac wedi argymell ystyried sefydlu gwasanaeth mewnol. Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor gefnogaeth hefyd am wasanaeth gorfodaeth mewnol ar y cyd gyda chyfrifoldeb am gyfyngiadau parcio a gorfodaeth amgylcheddol.

Rhoddwyd ystyriaeth o adroddiad Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Mewnol ar y Cyd ar gyfer Parcio Sifil ac Amgylcheddol gan y Cabinet ar 9fed Ebrill 2019 ble cytunwyd i gyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Mewnol ar y Cyd ar gyfer Parcio Sifil ac Amgylcheddol o 1af Gorffennaf 2019.

Cwblhawyd y broses statudol a daeth grymoedd gorfodi ar barcio sifil yn gyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o 1af Gorffennaf 2019. Ar gyfer y cyfnod Gorffennaf i Fedi rhoddwyd 9 Hysbysiad o Gosb Benodedig, 6 trosedd Rheolaeth ar Gŵn, 3 trosedd sbwriel a 986 o hysbysiadau cosb parcio.

# CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL

## AMCAN LLES – AROLYGU ADDYSG ÔL-16 YN NHORFAEN

- ein prosiect i gefnogi cyflenwi Canolfan Chweched Dosbarth newydd Saesneg ei chyfrwng yn Nhorfaen fel rhan o'n Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Cyflwynon ni Achos Amlinell Strategol (SOC) i Lywodraeth Cymru ar gyfer y Canolfan Chweched Dosbarth newydd i Dorfaen (a elwir bellach yn 'Barth Dysgu Torfaen') yng Nghwmbrân yn unol â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Torfaen. Roedd yr Achos Strategol ar gyfer newid yn cynnwys 4 blaenoriaeth:

- Gwella effeithlonrwydd a deilliannau gwasanaeth i bob dysgwr.
- Darparu economi ac arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth.
- Darparu cyfleoedd newydd a gwell i bob dysgwr.
- Gwella profiadau dysgwyr a deniadoldeb i bob dysgwr

Mae ein cynnig yn disodli chweched dosbarth mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng ac yn creu canolfan chweched dosbarth newydd yng Nghwmbrân. Arweiniodd y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, 'gwella cyrhaeddiad addysgol' atom yn dewis y prosiect ym mis Mawrth 2017 fel un o'n hamcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2017-18

**Cynnydd hyd yma …**

Rydym wedi parhau i symud ymlaen gyda Pharth Dysgu Torfaen ers i ni gyhoeddi'n diweddariad blaenorol yn Gwella Lles Torfaen (Mawrth 2019).

Mae'r buddsoddiad yn ymdrin â'r angen i drawsnewid cyflenwad ôl-16 yn Nhorfaen (yn unol ag agenda Llywodraeth Cymru 'Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru' (2008), gan sicrhau model mwy cynaliadwy gyda mwy o ddewis i ddysgwyr na fyddai'r sefyllfa fel arall o ystyried y sefyllfa refeniw disgwyliedig. Ei fwriad hefyd yw denu a chadw mwy o bobl ifanc 16 oed mewn addysg ôl-16 yn Nhorfaen.

Bydd yr adeilad newydd yn cyfrannu at ein cynllun strategol tymor hir ar gyfer moderneiddio ysgolion, Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (2014-2028). Ystyriodd hyn, dalgylchoedd a newid demograffig, cyfleusterau ysgolion, costau rhedeg, cyflwr adeilad (costau cyfredol ac yn y dyfodol) a barn y gymuned.

Cafodd datblygiad ein canolfan i gyflenwi addysg ôl-16 ei gynnwys ym Mand B y rhaglen (2020-2022) ac mae wedi ei ddwyn ymlaen er mwyn sicrhau adeilad pwrpasol o safon uchel ar safle yng Nghwmbrân y mae disgwyl iddo bara ar 25+ mlynedd.

**Adeiladu Perthnasau**

Tra bod y gwaith o adeiladu'r ddarpariaeth newydd wedi parhau, dros y 12 mis diwethaf, mae sylw wedi troi at: adeiladu perthnasau cryfach rhwng Coleg Gwent, ysgolion uwchradd Torfaen a'u dysgwyr; sicrhau bod y pynciau a'r cwricwlwm sy'n cael eu cynnig yn yr ysgolion a'r coleg yn gyson er mwyn osgoi problemau dilyniant pan fo dysgwyr yn symud at astudiaethau yn y 6ed dosbarth, a chefnogaeth trosglwyddo i ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny ag anghenion addysgol ychwanegol, wrth i ni nesáu at agor y cyfleuster newydd.

Mae Coleg Gwent wedi bod yn gweithio ar ei gynlluniau strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, i'w cwblhau yn 2020, gan ddefnyddio'r wybodaeth a data Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) oddi wrth Gyrfa Cymru i

*Ffig. 6 – Fideo'n dangos datblygiad Parth Dysgu Torfaen ([cliciwch yma](cliciwch yma))*



gefnogi datblygiad y cwricwlwm i sicrhau ei fod yn cynnig cyrsiau a datblygiad sgiliau a fydd yn helpu i gynnal yr amcanion a osodwyd gan y PSRh. Mae'r gwaith gyda'n hysgolion ar y cwricwlwm hefyd wedi ei ysbrydoli gan hyn.

Bydd ein prosiect yn cyflenwi deilliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol mewn ffordd integredig sy'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r prosiect hwn yn golygu gweithio ag ysgolion a phartneriaid mewnol eraill, a Choleg Gwent a phartneriaid allanol eraill i gynllunio a chreu Canolfan 6ed Dosbarth a fydd yn cynnig yr awyrgylch gorau posibl ar gyfer dysgu ac addysgu o fewn y gyllideb sydd ar gael. Unwaith y bydd ar waith, bydd y dull cydweithredol cryf at y cwricwlwm a throsglwyddiad dysgwyr yn cefnogi deilliannau dysgu a'r holl fuddion cymdeithasol ac economaidd y gall addysg dda eu rhoi trwy gydol bywyd.

**Sgiliau nawr ac at y dyfodol**

Bydd monitro effeithiol a defnydd o wybodaeth o'r farchnad lafur yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud dewisiadau o ran y cwricwlwm mewn ysgolion y bydd modd iddyn nhw eu parhau i addysg ôl-16 ac, ymhen amser, i yrfaoedd cynhyrchiol a gwerth chweil

Rydym nawr yn cael ein cynrychioli ar grŵp clwstwr Awdurdodau Lleol y PSRh. Gyda Chylch Gorchwyl nawr ar waith, ein bwriad yw y bydd y grŵp yma'n rhoi ac yn derbyn gwybodaeth a thueddiadau yn y farchnad yn y farchnad lafur. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i ddatblygiad ein Strategaeth Economi a Sgiliau newydd ac mae'n cael ei rhannu â rhanddeiliaid allweddol trwy Fforwm Economaidd Strategol Torfaen (y mae Coleg Gwent yn ei fynychu) O ganlyniad i'r rhannu data yma; rydym ni Cynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA), Coleg Gwent, Hyfforddiant Torfaen a 3 busnes peirianneg bach a chanolig lleol nawr yn gweithio ar gynllun peilot newydd trwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol.

Hefyd mae ymarfer mapio gwres wedi ei wneud er mwyn adnabod patrymau busnesau lleol a'u gofynion ar gyfer y farchnad lafur leol, gyda rhagor o wybodaeth ar dueddiadau yn y farchnad lafur leol hefyd yn cael ei defnyddio oddi wrth EMSI a'r Arsyllfa Sgiliau.

**Cysylltu addysg a busnes**
Er nad yw'n rhan uniongyrchol o'r adolygiad o addysg ôl-16, rydym hefyd wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chreu can olfan arloesi busnes Springboard newydd wrth ymyl Parth Dysgu Torfaen. Mae trafodaethau cychwynnol ar ddyluniad adeilad wedi pwysleisio pwysigrwydd annog disgyblion PDT i ystyried "entrepreneuriaeth" fel llwybr at gyflogaeth, ac, o ganlyniad, mae'r dyluniad arfaethedig nawr yn cynnwys siop goffi a mannau ymlacio yn y cyntedd er mwyn annog disgyblion i fynd i Ganolfan Springboard. Wrth ddatblygu achos busnes llawn, bydd trafodaeth fanwl rhwng Coleg Gwent a'n tîm Datblygiad Economaidd ynglŷn â rhaglenni ar y cyd a allai gael eu cynnig.

Bydd ein ffocws ar farchnadoedd llafur yn sicrhau fod gan fusnesau fynediad parod i gyflogeion gyda'r sgiliau y maen nhw eu hangen, beth bynnag yw eu busnes. Bydd y gallu i addasu cynnig y cwricwlwm wrth i anghenion newid yn helpu i gynnal y sefyllfa honno'n hir i'r dyfodol.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Mae pob agwedd ar ddatblygiad Parth Dysgu Torfaen ymhell ar y blaen nawr a hynny mewn da bryd i agor y cyfleuster newydd ym Medi 2020 a'r ffordd newydd o weithio.

Tra bod y prosiect yn debyg mewn llawer ffordd i brosiectau ysgolion $21^{ain}$ ganrif eraill, mae'r gwaith ar gwricwlwm a throsglwyddo, yn arbennig i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, yn arwain y sector, yn ein barn ni. Canlyniad uniongyrchol yw hyn o'r cydweithio cryf rhyngom ni, ein hysgolion a Choleg Gwent, a'r holl sefydliadau eraill sydd wedi cymryd rhan yn y cynnydd hyd yn hyn.

Bydd Medi 2020 yn garreg filltir arwyddocaol ond bydd cryfder yr hyn sy'n cael ei ddatblygu, ac yn arbennig sut y mae'n cael ei ddatblygu, yn golygu ffocws parhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, dysgu a llwybrau gyrfa



*Ffig 7 - Parth Dysgu Torfaen*

## AMCAN LLES – DATBLYGU CYNNIG LLES I HOLL BLANT A PHOBL IFANC

– Ein prosiect i adnabod gwasanaethau i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd yn ôl ystod oedran, gan sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth am yr amrywiaeth sydd ar gael i hybu iechyd a lles.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Mae lles plant a phobl ifanc yn hollbwysig, nid yn unig oherwydd pwysigrwydd sicrhau eu hiechyd corfforol a meddyliol ond oherwydd bod plant yn llai tebygol o fedru dysgu a chyflawni eu potensial yn yr ysgol hebddo."

**Cynnydd hyd yma …**

Rydym yn parhau i symud ymlaen gyda'n hamcan lles o ddatblygu cynnig lles i blant a phobl ifanc, ers i ni gyhoeddi'n diweddariad blaenorol yn Gwella Lles yn Nhorfaen (Mawrth 2019).

Mae ein cynnig lles yn ceisio darparu cronfa ddata electronig o'r holl weithgareddau sy'n cael eu cynnig yn Nhorfaen i gefnogi lles plant a phobl ifanc ar lefel corfforol ac emosiynol fel ei gilydd. Bydd ein cronfa ddata yn cynnwys nid yn unig y gwasanaethu yr ydym yn eu darparu, ond hefyd sefydliadau eraill sy'n gweithio yn Nhorfaen

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ehangu amrediad y Cynnig Lles fel ei fod yn cynnig gwasanaethau gan ein Partneriaid yn y BGC, yn ogystal â'r gwasanaethau yr ydym yn eu cyflenwi. Rydym wedi gwneud hyn trwy nifer o weithdai gyda chyfeillion o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) Rydym wedi datblygu cynllun gwaith ac wedi adnabod, yn unol â'r 5 ffordd o weithio, nifer o feysydd i'w datblygu a'u harchwilio. Rydym yn parhau i adolygu cyflenwad gwasanaethau a phartneriaethau i ystyried beth allwn ni wneud yn wahanol i gefnogi'r Cynnig Lles i Blant a Phobl Ifanc.

**Integreiddio'n Gwasanaethau**

Mae'r prosiect yn ceisio cyflenwi deilliannau mewn ffordd integredig sy'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Er enghraifft, gyda'n rhanddeiliaid, rydym yn adolygu ein gwasanaethau Datblygu Ieuenctid, Chwarae a Chwaraeon ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyflenwi darpariaeth i ddiwallu anghenion Lles ein plant a phobl ifanc. Rydym wedi alinio'r Cynnig Lles gyda Blaenoriaethau Corfforaethol eraill (prosiect T22 lleol) sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth gynnar at atal.

Bydd ein cynnyrch yr ydym wedi ei ddatblygu fel rhan o orchwyl y Cynnig Lles yn mynd trwy gynllun



peilot mewn clwstwr o ysgolion a thîm amlasiantaeth o'r adran Gofal Cymdeithasol. Bwriad y cynllun peilot yw sefydlu a fydd y cynnyrch yn gallu cynorthwyo'n staff i gefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yng nghyd-destun ehangach Lles.

Mae'r darn yma o waith yn gysylltiedig hefyd â'n bod ni'n ehangu rhai o'n teclynnau risg a dangosyddion cynnar sydd eisoes yn llwyddiannus. Mae ein teclynnau yn ein galluogi i



asesu plant a phobl ifanc ar adeg gynharach mewn perthynas â'r gofynion cefnogaeth ar gyfer ein plant a phobl ifanc mwyaf bregus yn Nhorfaen.

**Gwasanaethau i'r dyfodol**

Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i adolygu rhannau o'n cyflenwad presennol ac edrych ar sut a beth sy'n rhaid i'n gwasanaethau gyflenwi yn y dyfodol. Rydym wedi;

- Adolygu, cyfuno a datblygu grwpiau/paneli datrys problemau. Bydd hyn yn arwain at fod y grwpiau hynny'n fwy effeithlon ac o bosibl yn gallu cynnig cefnogaeth a gwasanaethau ar adeg gynharach, gyda'r bwriad o leihau cynnydd mewn angen am gefnogaeth ac, ymhen amser, lleihau'r galw ar wasanaethau.
- Llwyddo i gael Nod Barcud Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc - i sicrhau ein bod yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y ffordd gywir wrth ddylunio gwasanaethau, rydym yn eu gweld fel partner hanfodol wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir.
- Edrych ar declynnau cefnogaeth i bobl broffesiynol i wyro ceisiadau amhriodol am gefnogaeth i ffwrdd o wasanaethau statudol.

Rydym yn dal i ddatblygu golwg tymor hir ar sut i gael deilliannau lles gwell i'n helpu i fynd i'r afael â lefelau uchel o alw. Dros amser bydd mwy o ffocws ar ymyrraeth gynnar a fydd, o bosibl, yn gofyn am ailstrwythuro rhai agweddau ar gyflenwad y gwasanaeth. Mae'r camau uchod a gymerwyd yn y flwyddyn ddiwethaf wedi'n symud ymlaen yn sylweddol ar y daith hon.

**Ymyrryd mewn da bryd**

Mae'r gwaith yma'n parhau i ganolbwyntio ar sut all gwasanaethau adnabod ac ymyrryd i gefnogi plant a'u teuluoedd ar adegau allweddol

Trwy adolygu'n ystod bresennol o wasanaethau lles i ddechrau, byddwn yn ceisio cydlynu'n gwaith i sicrhau ein bod yna ymyrryd pan fo hynny'n bosibl naill ai pan fydd teulu/plentyn angen hynny neu, yn ddelfrydol, cyn iddyn nhw gyrraedd y pwynt yma. Mae'r enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt uchod yn dangos peth o'r cynnydd yn y maes hwn a byddwn yn parhau i ddatblygu.

Rydym ni wedi adolygu peth o'r data sydd gennym fel sefydliad a phartneriaethau i weld a allwn ni ailadrodd y llwyddiant a gawsom wrth leihau nifer y bobl ifanc nad sydd mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEETs), ond gyda grŵp llawer ehangach. Rydym yn parhau i ddatblygu gyda'n partneriaid dangosyddion ymyrraeth gynnar/risg eraill ar gyfer camau trosglwyddo eraill fel y

gallwn dargedu ymyraethau'n fwy ac ailddosbarthu peth o'r gwasanaeth o fodelau hollgynhwysol at rai mwy detholiadol.

**Cydweithio â phobl ifanc**

Fel soniwyd gynt, roedd ein prosiect yn cynnwys pob gwasanaeth yn y Gwasanaeth Addysg i gychwyn, ond ehangwyd hyn cyn pen dim i fod yn ddarn o waith gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'r partneriaid i gyd yn cyfrannu nawr at ddatblygiad ein Cynnig Lles. Mae ein BGC wedi gwella ymhellach trwy gynnwys 2 berson ifanc ar y Bwrdd, gan roi llais llawer cryfach i bobl ifanc, nid yn unig gyda datblygiad ein Cynnig Lles ond hefyd gyda gwaith ehangach y BGC. Cyfarfodydd y BGC

**Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …**

Unwaith y byddwn wedi cwblhau profi'r teclyn proffesiynol, bydd gennym ddarlun gwell o allu'r cynnyrch Cynnig Lles. Er y bydd teclyn Lles i Bobl Broffesiynol, Plant a Phobl Ifanc a'u teuluoedd yn cael ei fwydo gan yr un wybodaeth o ran darpariaeth y gwasanaeth, rydym yn rhagweld y bydd angen dylunio dyluniad rheng flaen y cynnyrch yma i ddefnyddwyr y gwasanaeth (yn hytrach na darparwyr) mewn ffordd a fydd yn hybu ymgysylltiad.

Unwaith y byddwn yn dechrau cynllunio'r cynnyrch a fydd yn cael ei ddefnyddio gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, byddwn yn cynnwys pobl ifanc a'u teuluoedd yn y broses o ddylunio. Byddwn y gwneud hyn trwy'r Fforymau Ieuenctid, Cynghorau Ysgol a Grwpiau Rhieni ac, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, 'Senedd Ieuenctid' Torfaen.

Wrth adolygu datblygiad ein Cynnig Lles cydnabyddodd Swyddfa Archwilio Cymru ein bod wedi sicrhau cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r cynnig i blant a phobl ifanc. Serch hynny mae yna gryn dipyn o waith i'w wneud o hyd Rydym yn cyflenwi darn o waith tymor hir a fydd yn cymryd amser sylweddol i'w gyflenwi. Hyd yn oed wedyn, bydd angen i'r cynnyrch ddatblygu o hyd wrth i ddarpariaeth y gwasanaeth esblygu a newid dros amser.



## EIN HAMCAN LLES a GWELLA - CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL

- Ein gweledigaeth y bydd ein holl bobl ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg o safon dda.

Rydym wedi ychwanegu ffrydiau gwaith newydd i'n Hamcan Lles 'Codi Cyrhaeddiad Addysgol' yn ystod y flwyddyn. Mae trosolwg o'r datblygiadau allweddol yn ystod 2019/20 isod...

**Trefniadau trosglwyddo**
Mae gwaith trosglwyddo gyda myfyrwyr coleg ym Mhont-y-pŵl a disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 12 yn mynd yn dda, gyda staff y coleg yn bresennol ym mhob un o'r 5 ysgol, yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Mae tua 200 o ddisgyblion blwyddyn 11 wedi gwneud cais ar gyfer Parth Dysgu Torfaen hyd yn hyn sydd mwy neu lai'n gywir ar gyfer adeg yma'r flwyddyn. Mae Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi ei lofnodi gan bawb ac mae'n gweithio'n dda er lles disgyblion. Mae cynllun peilot ar gyfer trosglwyddiad uwch i ddisgyblion ADY wedi ei gwblhau a'r broses/protocol hefyd. Mae gofynion ar gyfer disgyblion â Nam ar y Golwg wedi eu hymgorffori yn y dewis o liwiau yn yr adeilad. Mae'r ymweliadau Disgyblion/Myfyrwyr (i'r adeilad newydd yng Nghwmbrân) yn mynd ymlaen, ac mae diwrnodau agored yn y coleg ar gampws Pont-y-pŵl wedi eu trefnu ar gyfer Chwefror a Mawrth 2020.

**Y Blynyddoedd Cynnar**
Mae'r Ymyrraeth Datblygiad Iaith Gynnar yn ymyrraeth iaith lafar sy'n benodol ar gyfer plant yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn sy'n dangos gwendid mewn sgiliau iaith lafar ac sydd felly mewn perygl o gael anawsterau gyda darllen.

Mae'r rhain wedi eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a chanfyddwyd nad yw plany yn derbyn y gefnogaeth fwyaf priodol o fewn yr ymyrraethau Datblygiad Iaith Gynnar sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, ac ar ôl cwblhau darn o waith ar y cyd, bydd Grŵp Cyd-chwarae newydd yn cael prawf gan roi cynllunio a chefnogaeth â mwy o ffocws i deuluoedd plant ag anghenion cymhleth neu oediad mewn datyblygiad.

**Darpariaeth gofal plant**
Er gwaethaf cyflwyniad y Cynnig Gofal Plant, hyd yn hyn does dim cytundeb wedi bod i ddarparwyr wella ansawdd eu gofal plant. Serch hynny, disgwylir nawr i ddarparwyr ymgymryd â Graddfa Sgorio Amgylchedd sy'n briodol at oedran - ECERS, sy'n raddfa sydd wedi ei dylunio i asesu ansawdd lleoliadau cyn-ysgol sy' n wedi eu lleoli mewn lleoliadau gofal plant.

Mae hyn eisoes mewn grym ar gyfer lleoliadau a ariennir gan yr ALl ac yn rhan annatod o'r rheiny. Serch hynny, i'r rheiny nad ydynt yn cael eu hariannu, bydd hyn yn elfen newydd y bydd rhaid i ddarparwyr ymgymryd â hi ac mae'n rhan o'r amodau a thelerau ar gyfer ariannu. Cafwyd y panel grantiau cyfalaf bach cyntaf yn chwarter 2 gyda staff yr ALl a sefydliadau ymbarél. Derbyniwyd 11 cais gyda phob un yn cael ei gymeradwyo mewn egwyddor.

**Diogelu**
Crëwyd cronfa ddata diogel, byw yn 2018 ac wedyn , mewn trafodaeth gydag AD Addysg datblygwyd proses sy'n cefnogi monitro pellach o Gyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol. Hefyd, mae 29 o ysgolion yn defnyddio'r cysyniad My Concern i gofnodi ac adrodd ar ddiogelu ac mae hyfforddiant yn mynd ymlaen i ddatblygu defnydd a buddion y system ymhellach. Ynghyd â phrosesau eraill sydd ar waith eisoes, e.e. Teclyn Hunanwerthuso Adran 175, rydym wedi gallu gwella'n dadansoddiad o ddata diogelu, sicrhau cydymffurfiad parhaus mewn perthynas â pholisi a gweithdrefnau diogelu ac addasu'r cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion a'r gwasanaeth wedyn i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion.

# DARPARU CEFNOGAETH I'R TRIGOLION MWYAF BREGUS YN NHORFAEN

## AMCAN LLES – AIL-DDYLUNIO GWASANAETHAU OEDOLION

– Ein prosiect i ddatblygu model newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn seiliedig ar dimau ardal, adnabod cydweithrediad effeithiol gydag awdurdodau eraill a modelau cyflenwi amgen gyda'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Ymgymerwyd ag arolwg gwasanaeth llawn yn y Gwasanaethau Oedolion gyda'r gwaith cychwynnol yn helpu i ddatblygu gweledigaeth, i ddiffinio pwrpas newydd ar gyfer yr adran a dechrau ail-ddylunio'r gwasanaeth.

Penderfynwyd peilotio un tîm Lles ardal yng Ngogledd Torfaen, gan ddisodli ein system o gael ymatebion gwahanol ar gyfer pobl hŷn, pobl hŷn gydag iechyd meddwl, cleientiaid gydag anabledd corfforol, anghenion therapi galwedigaethol a chleientiaid a oedd mewn ysbyty."

Y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol 'cefnogi pobl sy'n agored i niwed' a'n harweiniodd i ddewis y prosiect ym mis Mawrth 2017 fel un o'r amcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2017-18

**Cynnydd hyd yma …**

Blwyddyn yn ôl, dywedon ni mai ein cyfeiriad yn y dyfodol a'n camau fyddai:

- cynllunio'r camau trawsnewidiad newydd
- gweithredu'r strategaeth gofal cartref a fydd yn:
  - ehangu ein gwasanaeth ailalluogi (bydd pob achos newydd yn mynd drwy raglen ailalluogi
  - datblygu manyleb tendr ar gyfer cyflenwi gofal cartref seiliedig ar ardal
- datblygu ein strategaeth gwelyau cymunedol yn seiliedig ar hybiau cymunedol
- ail-ddylunio ein model cyfleoedd dydd, wedi ei lunio gan adborth defnyddwyr a gofalwyr
- adolygu'n mynediad defnyddwyr gwasanaeth / gofalwyr wrth y drws ffrynt
- profi agwedd gyfannol ehangach tuag at les yng Ngogledd Torfaen
- gweithio gyda myfyriwr Ymchwil Sglerosis Ymledol (MS) yn 2019 i gasglu barn defnyddwyr a gofalwyr ynglŷn â Gofal Tosturiol.

**Arfer wedi'i sodro yn y tîm**

Rydym wedi gweithio'n galed yn 2018/19 i sodro'n egwyddorion a chyflenwi'n gweledigaeth. Roedd ein rhaglen trawsnewidiad yn gofyn am newid diwylliannol o ran meddwl er mwyn dod a llwyddiant. Rydym wedi parhau i ategu'n hegwyddorion gwaith a sefydlwyd llynedd trwy drafodaethau achos 'powlen bysgod' myfyriol, dyddiol gan sicrhau arfer wedi ei ganoli ar bobol sy'n canolbwyntio ar gadw annibyniaeth Cyflwynwyd hyfforddiant Sgyrsiau Cydweithredol (datblygu sgiliau i gyd-gynhyrchu) i bob tîm trwy grant allanol, i gyflenwi'r hyfforddiant sydd wedi cael ei groesawu gan y staff i gyd.

Mewn arolwg diweddar gan AGC (Arolygaeth Gofal Cymru Gorffennaf 2018) nodwyd fod lleisiau pobl yn amlwg yn y gwaith yr y ymgymerwyd ag e gyda'u barn, dymuniadau a theimladau'n ganolog i gefnogi pobl i gyrraedd eu deilliannau personol ac i ddiogelu pobl.

**Adolygu'r hyn a wnawn gyda'n partneriaid**

Mae ein grŵp galluogi wedi parhau i gwrdd yn fisol er mwyn canfod atebion i rwystrau. Llwyddwyd gyda rhai deilliannau trwy nifer o

ffrydiau gwaith. Mae gwella'n prosesau a systemau hefyd wedi bod yn amlwg yn ein rhaglen waith. Rydym wedi adolygu gweithdrefnau mewnol i leihau camau, hwbiau llaw a galw am fethiant.

Mae ein tîm rheoli gwasanaethau oedolion wedi adolygu ein sefyllfa bresennol. Er mwyn trwytho'r trafodaethau, gofynnwyd am adborth gan gleientiaid, partneriaid a staff cyn y digwyddiad. Dywedodd yr adborth fod cysondeb gweithwyr, magu hyder, gwasanaeth ailalluogi a defnydd technoleg a chyfarpar cynorthwyol i gyd yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol.

Yn ystod ein hadolygiad fe gymeron ni amser i asesu'n gweithgareddau dros y 12 mis diwethaf a dathlu'n llwyddiannau. Rydym wedi gwrando ar adborth gan ddefnyddwyr a gofalwyr i drwytho datblygiad y gwasanaeth a dewisiadau cefnogaeth gymunedol gan arwain at fodel amgen o gyfleoedd yn ystod y dydd i bobl â dementia.

**Bod yn rhagweithiol yn y gymuned**

Mae rôl cefnogaeth ataliol, ragweithiol yn chwarae rhan allweddol wrth reoli galw ac osgoi argyfwng ac ymrwymiadau comisiynu tymor hir. Mae gennym fwy o ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl gan arwain at grwpiau newydd o gefnogaeth gymunedol i bobl a nam ar eu clyw, Cysylltwyr Cymunedol uwch, ymgysylltiad tîm gyda'r cymunedau ac ymgysylltiad swyddogion gyda grwpiau cymunedol Rydym wedi cysylltu â phobl hŷn yn y gymuned i ddeall yn well beth fyddai'n eu helpu i leihau'r teimlad o unigrwydd. Hyd yn hyn rydym wedi derbyn dros 300 o ymatebion a fydd yn helpu i ffurfio'n strategaeth unigrwydd

Rydym wedi ymgysylltu â darparwyr ynglŷn â'r strategaeth Gofal yn y Cartref i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r problemau a chymryd cam yn nes at gomisiynu ar sail ardal. Rydym hefyd wedi sefydlu cynllun peilot i ymateb i ‘gwympwyr’ yn y gymuned fel dewis amgen i ymateb trwy ambiwlans, Rydym wedi dysgu bod dull rhagweithiol yn arwain at atebion ar y cyd ac yn atal sefyllfaoedd o argyfwng. (gweler *Amcan Lles Gofal yn y Cartref*).

Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi ymestyn prosiect Cartref yn Gyntaf gydag awdurdodau lleol cyfagos i roi asesiad cyflym i gleifion wrth adrannau drws ffrynt brys 7 diwrnod yr wythnos



*Ffig. 8 – Fideo’n dangos Cysylltwyr Cymunedol yn Nhorfaen (cliciwch yma)*

yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yng Nghasnewydd

Rydym hefyd yn 'cydgysylltu pethau' yn y gymuned i sicrhau cynnig 'un system' rhagweithiol i'r cyhoedd trwy ddatblygiad rhwydweithiau lles integredig ar draws partneriaid ac rydym wedi cyflwyno rhaglen beilot mewn Meddygfa Teulu er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl sy'n mynychu'r feddygfa. Mae pob menter wedi gofyn am agwedd wahanol yn canolbwyntio ar gael deilliannau gwell i unigolion y tu allan i weithio mewn seilos.

**Dull partneriaeth o ymdrin â gofal preswyl a gofal yn y cartref**

Yn ystod 2019/20 mae Torfaen hefyd wedi sicrhau cytundeb gan y Bwrdd Iechyd a phedwar awdurdod cyfagos i gyflenwi un o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gweithio i gyflwyno cyd-gronfa rhithiol ar gyfer gofal preswyl, mae cytundeb rhanbarthol a methodoleg ffioedd wedi bod yn heriol ond rydym wedi llwyddo. Mae gweithio gyda nifer o bartneriaid yn gofyn am ymddygiadau gwahanol ac ymrwymiad i 'fudd ehangach'.

Hefyd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwneud y mwyaf o annibyniaeth pobl, annog cynhwysiant cymdeithasol a chymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol. Fel rhan o gyfres o gynlluniau i wneud defnydd gwell o adnoddau prin gofal yn y cartref, rydym wedi tynnu'r Cynorthwywyr Ailalluogi ynghyd am brosiect i weithio gyda darparwyr allanol i sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn y mewnbwn gorau i gynorthwyo annibyniaeth. Mae hwn yn gam beiddgar gan yr isadran sydd wedi cyflwyno ffordd newydd o weithio gyda darparwyr allanol. Mae'r prosiect megis dechrau ond mae eisoes wedi dangos yr angen i fuddsoddi amser ychwanegol i adeiladu perthynas am ymddiriedaeth gyda darparwyr.

**Datblygu model hyb cymunedol**

Rydym wedi adolygu'n defnydd o welyau cymunedol ac wedi datblygu achos busnes llwyddiannus i sicrhau dros£3miliwn o'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi'n strategaeth gymunedol. Mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu i oruchwylio dyluniad ac adeiladu hyb cymunedol yn cynnwys pedwar uned ar bymtheg gyda'u drysau ffrynt eu hunain a lle cymunedol yn y fwrdeistref y mae disgwyl ei




*Ffig. 9 - Fideo'n esbonio prosiect GovTech (cliciwch yma)*

gwblhau erbyn Mawrth 2021. Disgwylir y bydd y model hyb cymunedol yn cynnig dewis amgen yn lle'r mathau mwy sefydliadol o ofal a chefnogaeth, bydd yn canolbwyntio ar ail-alluogi , galluogi, hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risgiau cadarnhaol ac adeiladu hyder fel y gall trigolion gael eu cefnogi i gynnal sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol gan osgoi'r angen am leoliadau parhaol, tymor hir a gwella llif rhyddhad cleifion o ysbyty i'r gymuned.

R ydym wedi penodi person (gyda BIPAB) i adolygu'r gwasanaeth therapi galwedigaethol (ThG) ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn Nhorfaen gyda'r gorchwyl o ddadansoddi'r galw a'r capasiti presennol er mwyn argymell opsiynau ar gyfer integreiddio / cydweithio / alinio gyda'r defnydd gorau o adnoddau. Rydym eisoes wedi sefydlu system ar gyfer adnabod pwysau yn y system ThG fel y gallwn ni ddefnyddio adnoddau / capasiti mewn ffordd hyblyg Rydym yn dechrau gweld effaith hyn trwy ostyngiad yn y niferoedd ar restrau aros ar gyfer therapi galwedigaethol

**Defnyddio technoleg**

Arweiniodd ein cais llwyddiannus i Gatalydd GovTech at gais o hyd at £1.25 miliwn o arian gan Swyddfa'r Cabinet i annog cwmnïau technoleg i datblygu a pheilotio atebion i'n her i ddefnyddio data a thechnoleg ddigidol i ddarparu gofal cymdeithasol gwell i oedolion

Yng Ngham 1, bydd pum prosiect posibl yn cael eu dewis i dderbyn hyd at £50,000 yr un ar gyfer costau ymchwil a datblygu. Gallai'r gorau o'r rhain gael hyd at £500,000 yng Ngham 2 i droi'r atebion posibl yma'n gynhyrchion neu wasanaethau dichonadwy.

Mae ein Rheolwr Tîm ar gyfer Cyfleoedd Dydd a Datblygiad y Gwasanaeth wedi arwain y broses GovTech a hefyd wedi arloesi gyda dull cydgynhyrchiol newydd a chyffrous o ad-drefnu'r gwasanaeth. Mae'r dull yma'n cael ei werthuso gan brifysgol Caerdydd ac er ei fod yn y camau cyntaf mae e eisoes wedi derbyn clod am fentrusrwydd ac arloesi gan sefydliadau academaidd ar draws Ewrop.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Mae'r model newydd o gefnogaeth yn y gwasanaethau oedolion yn ddibynnol ar ein staff fel ‘yr ymyrraeth’ yn hytrach na gwasanaethau tymor hir a gomisiynir. I'r diben hwn, rydym wedi parhau'n ymrwymedig i'n lefel o staffio ac wedi cynyddu ble mae modd wedi bod i wneud hynny trwy lwybrau ariannu allanol. Rydym yn credu'n gryf fod gwasanaethau ataliol, wedi eu canoli yn y gymuned yn allweddol i ddeilliannau gwell i drigolion a chynaliadwyedd tymor hir i'r Cyngor Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi sefydlu swyddi ychwanegol mewn technoleg gynorthwyol a galluogi dementia ac, er gwaethaf pwysau ariannol parhaus, rydym wedi gweithio'n galed i gynnal ein lefelau staffio o fewn y timau cymunedol ac ymateb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gan gynnwys cysylltwyr cymunedol, swyddogion prosiect, cefnogaeth i ofalwyr a chynorthwywyr ailalluogi. Mae ein model wedi ei gynllunio i gael sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig sy'n cefnogi trigolion i adnabod deilliannau personol a'u galluogi i gael hyd i atebion trwy ddefnyddio grisiau o gefnogaeth. Bwriad y ffordd yma o weithio oedd mynd i galon y mater trwy sgyrsiau cydweithredol gan sicrhau fod gan drigolion lais a rheolaeth. Trwy weithio'r ffordd yma rydym yn disgwyl dros amser y byddwn yn lleihau gwariant ar wasanaethau wedi eu comisiynu a byddwn yn ail-fuddsoddi mewn staff rheng flaen ychwanegol (ymyraethwyr) Yn y 12 mis nesaf byddwn yn:

- Ehangu gofal yn y cartref yn fewnol yn amodol ar fod arian ar gael (gweler amcan lles ar wahân)
- Cytuno ar fodel cefnogaeth gymunedol ar gyfer gofal yn y gwely
- Adolygu ac ail-drefnu ein cyfleoedd dydd
- Cynllunio i gyflenwi'r diwygiad i'r Ddeddf Gallu Meddyliol - Diogelwch Gwarchod Rhyddid a newidiadau i’r Ddeddf Iechyd Meddwl ar ôl yr adolygiad cenedlaethol.

## AMCAN LLES – GOFAL CARTREF CYNALIADWY
– Ein prosiect i greu gweithlu lles cynaliadwy, sy'n sylfaenol i gyflenwi gofal yn effeithiol i bobl yn eu cymunedau a'u cymdogaethau.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**


Cael eu cynorthwyo yn eu cartrefi eu hunain (# HomeFirst) yw beth y mae'r cyhoedd wedi ei ddweud yn gyson sy'n flaenoriaeth iddyn nhw.

Mae amcanestyniadau yn nhwf y boblogaeth a phroffil demograffig yn awgrymu bod ochr gyflenwi gofal cymdeithasol yn ei chael yn anodd cadw i fyny gyda'r galw. Mae'r data'n awgrymu y bydd angen dros hanner miliwn o weithwyr gofal / gofalwyr cartref newydd ar draws y DU erbyn 2032.

Mae'r bwlch rhwng y galw am lafur a'r cyflenwad yn cael ei waethygu gan y syniad yn eang bod gyrfa yn y sector gofal cymdeithasol yn llai deniadol oherwydd amodau gwaith, cyflog isel, diffyg sicrwydd yn y swydd, diffyg cyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith a statws cyffredinol y proffesiwn. Byddai profiad lleol yn cefnogi'r pwyntiau hyn. Mae recriwtio i'r tîm mewnol a darparwyr allanol yn her barhaus. Yn gryno, wrth i'r galw gynyddu, mae'r gweithlu posibl yn lleihau.

Mae'n amlwg bod y ddarpariaeth bresennol yn ei chael yn anodd ac nid yw'n addas i gyflenwi yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a Chwefror 2018, adroddwyd bod 23 o drigolion Torfaen wedi cael oedi o ran trosglwyddo gofal tra'n aros am becynnau gofal mewn gwelyau ysbyty.




Nid yw ein gwasanaeth mewnol yn medru cefnogi'r holl bobl newydd sy'n cyflwyno eu hunain i'r adran a fyddai'n elwa o raglen ailalluogi. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth, sydd yn ei dro yn ychwanegu at y pwysau hirdymor am wasanaeth hirdymor. O ystyried yr uchod, teimlir ei bod yn briodol ystyried yr opsiynau posibl i ddelio â'r cynnydd mewn galw..

**Cynnydd hyd yma …**

Yn Nhachwedd 2018 fe wnaethom ni adrodd i'r Cabinet, gan bwysleisio'r heriau yn y farchnad gofal cartref ar hyn o bryd. Roedd ein hadroddiad yn argymell nifer o gamau i leddfu'r risgiau a oedd yn cynnwys:-

- Cefnogi a chyfrannu at y ffrydiau gwaith rhanbarthol,
- Ehangu gwasanaethau galluogi a dementia'r Cyngor (yn amodol ar fod adnoddau ariannol ychwanegol ar gael, i'w gadarnhau yn 2020),
- Gweithio gyda'r darparwyr allanol i ddatblygu model amgen o ofal ar sail ardal, a
- Edrych i mewn i oblygiadau'r Siarter Foesegol

Mae ein dau edefyn gwaith, rhanbarthol a lleol, wedi parhau dros y 12 mis diwethaf.

## Rhanbarthol

Rydym ar hyn o bryd yn arwain y tîm Trawsnewid Rhanbarthol, mae llawer o waith wedi ei wneud, gyda chefnogaeth Grant a ddarparwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Defnyddiwyd hon i:

**1. Ddatblygu ein hagwedd tuag at gomisiynu**

Rydym wedi ymgysylltu â'r darparwyr gofal yn y cartref ar draws Gwent i ddiweddaru'r datganiad sefyllfa yn y farchnad a chael eglurder ar / sefydlu beth yw rhwystrau presennol y sector. Mae'r gwaith wedi sefydlu;

- Problemau cyson gyda recriwtio a chadw staff ar draws y Bwrdeistrefi. Mae trosiant staff yn dal i fod yn uchel. Mae mwy o bobl yn gadael y sector nag sy'n ymuno.
- Mae darparwyr wedi awgrymu bod cyflogau isel, gofynion gyrru, y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rôl a'r canfyddiadau am y rôl yn rhwystro recriwtio ymhellach.
- Mae darparwyr a chomisiynwyr wedi awgrymu fod yna nifer o ffyrdd posibl ymlaen:
  - Cyfraddau taliadau uwch i ddarparwyr i ganiatáu talu amser teithio ac egwyliau (darparwyr)
  - Comisiynu ar sail ardal (darparwyr a rhai comisiynwyr)
  - Hyblygrwydd mewn pecynnau gofal i ganiatáu amserau galw hyblyg a hyd galwadau (darparwyr)
  - Diwedd ar gomisiynu amser a thasg (darparwyr), a
  - Gwell prosesau rhyddhau o ysbytai (darparwyr)

Mae gweithdy a gynhaliwyd yn Ionawr 2020 wedi dechrau'r broses o edrych yn fwy manwl ar y cyfraniadau yma

**2. Recriwtio a chadw'r gweithlu**

Mae recriwtio a chadw staff yn y sector wastad wedi bod yn anodd gan fod swyddi eraill sy'n cael eu talu ar yr un raddfa (er enghraifft manwerthu) sy'n rhoi mwy o sicrwydd a llai o oriau anghymdeithasol. Rydym wedi edrych ar rwystrau at fynediad i'r sector ac rydym nawr wedi dechrau edrych ar atebion i hyrwyddo cyfleoedd yn y sector gofal. Rydym wedi;

- datblygu'r gronfa ddata myfyrwyr Addysg Bellach, gan helpu pontio'r bwlch rhwng addysg a gwaith.
- Datblygu dolen o fewn yr ap recriwtio 'My Future' sydd wedi ei anelu at y rhai sy'n gadael yr ysgol sy'n chwilio am swyddi ar lefel mynedaid yn y farchnad swyddi.
- Gweithio gyda'r cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a'r Ganolfan Waith a Mwy (CW+), er mwyn lansio rhaglen beilot gwirfoddolwyr i gefnogi lleoliadau i wirfoddolwyr mewn gofal yn y cartref.
- Cynhyrchu llyfrynnau 'Munudau Hudol mewn Gofal yn y Cartref' ac wedi cynnal gweithdai i gynnig cyfle i staff rheng flaen i ddangos beth sy'n gwneud gwahaniaeth mewn gofal, gan annog unigolion i ddod a rhannu'u storiâu.



*Ffig.10 – Munudau Hudol mewn digwyddiad gofal yn y cartref*

Mae Consortiwm Coleg Gyrfaoedd Gwent yn ddull cyfannol sy'n cefnogi datblygiad, cymhwyso a recriwtio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent. Wedi ei sefydlu gan y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol a Choleg Gwent, mae'r rhaglen yma'n tynnu ynghyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, awdurdodau lleol, cynlluniau cyflogadwyedd rhanbarthol a darparwyr preifat o ofal cymdeithasol fel rhan o dull cydweithredol newydd i ddelio ag anghenion recriwtio a chadw'r sector gofal. Mae'r cynllun wedi ei gydnabod fel Enghraifft Bevan – sy'n cydnabod syniadau arloesol mewn gofal iechyd.

Cafwyd cynnydd mewn lleoliadau gwaith myfyrwyr coleg gyda darparwyr rhanbarthol yn fodlon derbyn lleoliadau myfyrwyr a darparu cyfleoedd dysgu profiadol. Mae'r consortiwm yn cydnabod bod lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yn rhan bwysig o ddatblygu sgiliau a phrofiad y gweithlu yn y dyfodol. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ceisio adborth gan gyflogwyr i sicrhau fod pob lleoliad gwaith yn cynnig y buddion gorau i'r myfyriwr a'r darparwr gofal fel ei gilydd, gyda'r bwriad o bontio'r bwlch rhwng addysg a chyflogaeth ymhellach.

Mae dull y consortiwm wedi galluogi partneriaid i rannu a chydweithio ar gyfleoedd ariannu gyda Choleg Gwent a BIPAB yn edrych ar hyn o bryd ar ddatblygiad ystafell efelychu i ddysgu tasgau clinigol sylfaenol i fyfyrwyr a staff sydd yn y sector ar hyn o bryd.

**Mewnol - Torfaen yn benodol**

Yn ogystal â'r gweithgaredd rhanbarthol, mae cynnydd sylweddol 'y tu ôl i'r llenni' wedi digwydd yn lleol. Mae ein model presennol o ofal yn y cartref yn Nhorfaen yn un o amser a thasg. Mae gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gofyn i ni adolygu sut rydym yn cyflenwi ac yn comisiynu gofal a chefnogaeth i bobl fregus. Er mwyn cyflenwi gofal o ansawdd yn y cartref wedi ei ganoli ar y person ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chefnogi cymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol, mae angen i ni symud i ffwrdd o'r model hanesyddol yma ac ail-ddylunio'r system fel y gallwn ganolbwyntio ar ddeilliannau personol, gan gefnogi pobl i fyw'r bywyd yn y ffordd maen nhw'n ei dewis

**Dysgu gan eraill**

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae uwch reolwyr y Gwasanaethau Oedolion wedi edrych ar fodelau amgen, gan gynnwys ymweliad 3 diwrnod i Gyngor Gwynedd i edrych ar eu Model o Ofal yn y Cartref. Rydym wedi dysgu bod rhaid i fodel mwy cynaliadwy gael ei seilio ar bartneriaethau cryf, ymddiriedaeth a chydweithrediad gyda rhanddeiliaid. Model sydd wedi ei ddylunio o gylch yr hyn sy'n bwysig i'r dinesydd, sydd wedi ei adeiladu ar gryfderau pobl, rhwydweithiau a'r gymuned ac yn galluogi pobl i gael llais a rheolaeth Mae'r model newydd yma'n gofyn am newid sylweddol y n ffordd partneriaid o feddwl gan gynnwys y dinesydd, timau lles, y sector gofal yn y cartref mewnol a phreifat.

**Gweithio yn y sector preifat**

Mae ymgysylltiad gyda'r sector gofal yn y cartref preifat wedi dechrau gan fod eu rhan yn nylunio model newydd ar gyfer y dyfodol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Mae nifer o weithdai wedi eu cynnal a'u cynllunio ar gyfer 2020. Rydym hefyd wedi sicrhau arian allanol ychwanegol i helpu i gefnogi'r newid yn y sector i gyd-fynd â gwaith yr ydym wedi ei gwblhau yn y timau ardal


**Diweddaru'n data darpariaeth**

Diweddarwyd mapio oriau cyflenwi yn ôl lleoliad a darparwyr. Mae natur y gwasanaeth yn golygu bod newidiadau i'r gwasanaeth yn anochel o ran faint sy'n cael ei gyflenwi a'r lledaeniad daearyddol. Roedd y mapio gwreiddiol yn 'plotio' 313,000 awr o ofal cartref yn y gymuned ar draws y fwrdeistref, mae hyn wedi cynyddu nawr i 375,860 awr.

**Recriwtio ar sail gwerthoedd**

Mae recriwtio i'n gwasanaeth mewnol yn dal i fod yn broblem. Er mwyn llwyddo i gael yr estyniad yn

y gwasanaeth a gynlluniwyd cytunwyd ar fodel newydd o recriwtio gyda'n cydweithwyr o'r adran adnoddau dynol. Cynhaliwyd ein digwyddiad recriwtio 'ar sail gwerthoedd' ar 21ain Ionawr 2020. Roedd y yn llwyddiant ysgubol gan ddenu 38 o gyflogeion posibl ac yn arwain at gynnig a derbyn 10 swydd. Mae hyn yn anhygoel o gymharu â'r ymgyrch recriwtio ddiwethaf a ddenodd dim ond 15 aelod newydd o'r staff dros gyfnod o 12 mis. Yn amodol ar fod arian ar gael bydd yr ymgyrch recriwtio'n parhau trwy 2020. Byddwn hefyd yn siarad â staff er mwyn deall rhwystrau'r patrymau a chytundebau gwaith presennol



**Y Siarter Foesegol**

Cyfres o ymrwymiadau y mae cynghorau'n eu gwneud sy'n sefydlu lleiafswm safonau a fydd yn gwarchod urddas ac ansawdd bywyd i'r bobl hynny a'r gweithwyr sy'n goflau amdanyn nhw yw'r siarter gofal moesegol. Mae Cam 1 y broses yn seiliedig ar yr amser a chyfyngiadau tasgau patrymau presennol comisiynu a threfnu gofal. Byddwn yn symud at ddull ar sail ardal o gomisiynu sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae cam 2 y siarter yn canolbwyntio ar delerau ac amodau a hyfforddi gofalwyr. Mae cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 sy'n rheoli cofrestru gofalwyr ar sail galluoedd penodol yn cefnogi'r elfen hon o'r siarter. Bydd y gwaith yr ydym wedi ei gynllunio gyda'n partneriaid o blith darparwyr preifat yn ein helpu i ddeall telerau ac amodau'r farchnad er mwyn cefnogi newidiadau ble byddai'r newidiadau hynny'n y chwanegu gwerth at gynaliadwyedd y farchnad gofal yn y cartref yn gyfan. Mae cam 3 y siarter yn ymwneud â thalu o leiaf y cyflog byw i ofalwyr yn y farchnad sector preifat. Bydd setliadau ariannol gan Lywodraeth Cymru ac adnoddau sydd ar gael yn cael effaith ar y ffordd ymlaen ac fe'i hystyrir pan fydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn fwy eglur.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Yn y flwyddyn sydd o'n blaen byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd hyd yn hyn, gan edrych i;

- Barhau i weithio gyda'r tîm rhanbarthol i fynd i'r afael a phroblemau ehangu gyda'r gweithlu,
- Hwyluso gweithdai gyda darparwyr allanol,
- Dechrau drafftio manyleb tendr a gweithio ar opsiynau maint ardal i drwytho'r broses dendro
- Cynnal rhagor o ddigwyddiadau recriwtio
- Edrych ar opsiwn prentisiaethau
- Ymgysylltu â staff ac undebau i ddeall yn well y rhwystrau i gadw'r telerau ac amodau presennol.

## AMCAN LLES - CEFNOGAETH I DRIGOLION MWYAF BREGUS TORFAEN

Ein Gweledigaeth am gymuned iachach lle mae'r bobl fwyaf bregus yn cael y cymorth i fyw bywydau iach, annibynnol, lle mae'r cyngor ac asiantaethau eraill yn gweithio i atal dioddefaint a chaledi a lleihau anghydraddoldeb. Modelau amgen o gyflenwi'r gwasanaeth gyda'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector.

Rydym wedi ychwanegu ffryddiau gwaith newydd i'n Hamcan Lles 'Cefnogaeth i Drigolion Mwyaf Bregus Torfaen' yn ystod y flwyddyn. Rhan allweddol o'n gwaith yw'n gwaith i drawsnewid gwasanaethau plant sy'n rhan o'n rhaglen drawsnewid ehangach (T22).

**Yr Achos dros Drawsnewid Gwasanaethau Plant**
Cyfuniad o nifer o ffactorau lleol a chenedlaethol cymhleth sy'n gyrru twf uchel mewn galw am Wasanaethau Plant a'r gost o'u darparu. Mae hyn yn cynnwys y nifer fawr (ac un sy'n tyfu) o fynediad plant a phobl ifanc i wasanaethau cost uchel. Pan fydd plant yn cyrraedd y lefel yma o ofal, dyma'r gost uchaf o bell ffordd o ran gwasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r twf yma mewn galw, cost a dwysâd yn dod â her sy'n fawr, cymhleth a brys. Gyda chefnogaeth amserol sydd wedi ei chydlynu'n well a'i thargedu yn gynharach mewn taith bywyd plentyn i mewn i a thrwy Wasanaethau Plant, gallem o bosibl osgoi eu mynediad mewn ffordd ddiogel a'r dwysâd yn eu hanghenion. Gallai hyn helpu'r Gwasanaethau Plant hefyd i dynnu rhai o'r plant i ffwrdd yn ddiogel o rhai o'r ffyrdd uchel eu cost o'u cadw'n ddiogel a gwneud hynny'n gyflymach. Mae'r her hefyd yn gosod pwysau, mawr, cynyddol ac anghynaladwy ar ein cyllidebau y mae'n rhaid mynd i'r afael ag e ar frys.

Rhaid i'n hymateb i'r her yma gydbwyso newidiadau i'r Gwasanaethau Plant gyda newidiadau i ystod ehangach o wasanaethau a ffynonellau o gefnogaeth sy'n helpu plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel a chael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

Er mwyn wynebu'r her yma'n llwyddiannus, mae'n rhaid i'n hymateb trawsnewidiol lwyddo gyda phob un o'r tri nod canlynol

- Parhau i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel;
- Atal ar frys y cynnydd disgwyliedig yn y galw a chadw galw ar y lefelu presennol; a
- Effeithlonrwydd ar gyfer ail-fuddsoddi mewn Gofal Cymdeithasol.

Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn ystod 2019/20 sy'n gysylltiedig â'n rhaglen o waith trawsnewidiol yw datblygiad **Hyb Cefnogaeth a Diogelu Amlasiantaeth (MASSH).** Sefydlwyd y MASSH er mwyn blaenoriaethu achos yn effeithiol ar adeg y cysylltiad cyntaf â'r gwasanaethau plant er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth cywir yn cael ei ddarparu. Mae hyn yn golygu cyfeirio at wasanaethau cyffredinol, asesu, darparu gwasanaeth ataliol, neu ddarparu gwasanaethau i ddiogelu. Disgwylir y bydd ein proses newydd a gyflwynwyd yn Nhachwedd 2019 yn sicrhau cyflenwad mwy effeithiol ar yr adeg gywir ac yn creu capasiti er mwyn gweithredu'n fwy effeithiol mewn achosion ble mae mwy o angen a chymhlethdod. Bwriad ein model hefyd yw gwella cysondeb gwneud penderfyniadau.

Mae gennym uchelgais hefyd i ddatblygu model amlasiantaeth llawn. Rydym yn gweithio gyda Heddlu Gwent sydd wedi rhoi ditectif sarjant i ddatblygu hyb. Rydym yn gobeithio y bydd hyn nawr yn ein galluogi i symud ymlaen tuag at ddatblygu model/dull amlasiantaeth llawn.

# Rhan 3 – Dewis a Chyflenwi ein Hamcanion Lles yn y Dyfodol

## A. Ein Hamcanion Lles a Gwelliant yn y Dyfodol

Ymgymerwyd ag adolygiad llawn o'n hamcanion lles yn y flwyddyn flaenorol. Rydym felly o’r farn bod ein blaenoriaethau presennol (a’n Hamcanion Gwella) yn dal yn berthnasol a dylid eu cadw fel ein hamcanion Lles thematig ar gyfer 2020-21, gan gasglu croestoriad mwy o’r hyn rydym yn ei wneud i gydymffurfio gyda Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.

Serch hynny, daw ein Cynllun Corfforaethol presennol i ben ym Mawrth 2021 a bydd angen felly i ni adolygu'n blaenoriaethau unwaith eto yn y flwyddyn sydd i ddod.

Dewiswyd blaenoriaethau’r cynllun corfforaethol yn wreiddiol mewn meysydd lle rydym yn meddwl y medrwn wneud gwahaniaeth i les lleol, gan weithio gyda phartneriaid a thrigolion. Rydym wedi meddwl am sut medrwn wneud y mwyaf o’n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol. Ni fedrwn wneud popeth a mae angen canolbwyntio ein hadnoddau, ond rydym wedi meddwl yn ofalus am ble medrwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i les y bobl sy’n byw a gweithio yn Nhorfaen.

Mae ein Hamcanion Lles a Gwella ar gyfer 2019-20 felly wedi eu pennu fel:

| | | |
|---|---|---|
| ... TORFAEN GLÂN A GWYRDD | ... CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL | ....CEFNOGAETH I BOBL FWYAF BREGUS TORFAEN |

**Mae Atodiadau 1 i 3** yn nodi detholiad o weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw yn y flwyddyn nesaf i ddatblygu’n hamcanion. Gyda phob atodiad mae cyfres o fesurau perfformiad rydym wedi bod yn eu casglu, adrodd arnynt a’u monitro ers mabwysiadu ein Cynllun Corfforaethol.

## B. Defnyddio’r 5 ffordd o weithio

Wrth graidd Deddf LlCD mae’r egwyddor cynaliadwyedd. Fel y nodwyd yn ‘Adran 1’ mae’r egwyddor yn nodi bod angen i ni a chyrff cyhoeddus eraill weithio i sicrhau bod ‘anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu anghenion cenedlaethau’r dyfodol’.

Mae’r Ddeddf LlCD 2015 yn rhoi 5 peth ar waith y mae angen i ni feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi defnyddio’r egwyddor datblygiad cynaliadwy. Bydd dilyn y ‘pum ffordd o weithio’ yma yn ein helpu i weithio’n well gyda’n gilydd, osgoi ailadrodd camgymeriadau’r gorffennol a delio gyda rhai o’r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu.

Rydym yn ymroddedig i ddyheadau Deddf LlCD 2015 a thros y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio’n galed i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda’r gofynion ac yn elwa o’i gweithrediad. Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd templed Asesiad Lles newydd ar draws y sefydliad i gefnogi datblygiad mentrau newydd ar draws y cyngor, gan sicrhau fod yr ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Ddeddf pan fydd newidiadau i wasanaethau. Mae pob asesiad lles yn dweud, ymhlith pethau eraill, sut mae prosiectau yn cysylltu gyda’r nodau lles cenedlaethol ynghyd â nodi sut mae’r 5 ffordd o weithio wedi cael eu hystyried."

Bydd ein hasesiad lles yn parhau i gael ei fireinio wrth i ni fynd ymlaen i sicrhau ei fod yn addas at ddibenion ac yn ystyried unrhyw newidiadau fel dyletswyddau deddfwriaethol newydd sydd

gennym. Hefyd, at y dyfodol, bydd pob strategaeth a pholisi rydym yn eu datblygu yn ystyried ethos y Ddeddf.

## C. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) - Diweddariad

Mae'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ledled Torfaen yn aros yn gryf, ac rydym yn parhau i arwain ar hwyluso a gweinyddu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC). Mae'r BGC yn adeiladu ar drefniadau partneriaeth cadarn blaenorol a chyfredol gyda'r pedwar partner statudol (sydd yn ein cynnwys ni, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) ynghyd â phartneriaid eraill.

Fel adroddwyd o'r blaen defnyddiodd y BGC Asesiad Lles Torfaen i ddatblygu Cynllun Lles i Dorfaen (Mai 2018). Mae'r cynllun hwn yn strategaeth tymor hir, yn ceisio newid cenedliadol ac yn nodi'r meysydd ar gyfer camau sy'n ychwanegol ar ben busnes dydd i ddydd pob partner. Cred y BGC bod y Cynllun Lles yn nodi meysydd a fydd yn ychwanegu gwerth ac y gellir ond eu cyflawni trwy gydweithredu; a gyda'i gilydd, cymunedau a phartneriaid ehangach yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r BGC yn anelu at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn Nhorfaen. Mae'r camau cynharaf wedi cynnwys edrych ar y problemau ac ystyried pam gamau sy'n gweithio orau i'n cymunedau yn ogystal ag i wasanaethau cyhoeddus. Mae'r BGC wedi canolbwyntio peth o'i waith ym Mlaenafon, gan weithio gyda'r gymuned leol i lunio'r newidiadau a chefnogi pobl leol yn well.

Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf yn nodi'r hyn mae'r BGC wedi ei gyflawni ar draws y cynllun gyda chyfres o ffilmiau ac adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd hyd at Fawrth 2019.



# Rhan 4 – Meysydd Newid Corfforaethol

Mae defnyddio’r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygiad cynaliadwy) ac ystyried sut rydym yn cyfrannu i bob un o’r saith nod lles yn gofyn i ni weithredu ar draws y Cyngor cyfan.

Mabwysiadu dull seiliedig ar ganlyniadau yw un o’r ffyrdd y medrwn addasu ein prosesau busnes yn unol â’r Ddeddf. Mae’n ymwneud â sut rydym yn cynllunio ac olrhain cyflenwad, yng nghyd-destun canlyniadau lefel poblogaeth yn hytrach nag allbynnau lefel trefniadol (perfformiad).

Mae Deddf LlCD 2015 hefyd yn disgrifio 7 maes corfforaethol o newid (Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Cynllunio Gweithlu, Caffaeliad, Asedau, Rheoli Risg a Rheoli Perfformiad), ble, petaem yn defnyddio gofynion y Ddeddf, buasem fwyaf effeithiol o ran sicrhau’r math o newid sydd ei angen.

**Cynnydd hyd yma yn erbyn y 7 maes o newid corfforaethol …**

Ein hymateb cychwynnol i'r Ddeddf oedd canolbwyntio’n bennaf ar ail-ddiffinio prosesau cynllunio corfforaethol, ariannol a chynllunio gwasanaeth fel eu bod yn annog yr holl wasanaethau i feddwl am ofynion y Ddeddf. Serch hynny rydym nawr yn datblygu cyflymder y newid ar draws holl feysydd corfforaethol newid.

Mae strategaethau newydd yn y broses o gael eu cwblhau; Caffael, Rheoli Asedau a Chynllunio'r Gweithlu. Wrth ddatblygu pob strategaeth rhoddwyd ystyriaeth i ofynion Deddf LlCD 2015.

Mae ein Strategaeth Datblygu'r Gweithlu'n allweddol er mwyn sicrhau fod gennym y gallu i gynnal cyflenwad gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel mewn cyd-destun heriol. Mae hyn yn ddibynnol i raddau helaeth ar fod gan y Cyngor gyflogeion sy'n ymrwymedig i gyfenwi gwasanaethau cyhoeddus hyd eithaf eu gallu, ymddwyn mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor, bod â'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen i fod yn effeithiol yn eu gwaith a bod yn barod i ddatblygu sgiliau newydd i ymateb i ddisgwyliadau cyfnewidiol cwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod fel sefydliad fod gennym weithlu sy'n heneiddio gyda llawer mwy o'n cyflogeion dros 55 nag o dan 25 oed. Hefyd, mewn rhai rhannau o'r gweithlu mae yna ddiffyg sgiliau, o ganlyniad i flynyddoedd o lymder a lleihau parhaol ar gyllidebau hyfforddiant.

Felly, bydd cyflenwi’n Strategaeth Gweithlu'n canolbwyntio'n arbennig ar feysydd allweddol.

- Datblygu sgiliau at y dyfodol, gan gynnwys sgiliau rheolwyr, arweinyddiaeth a digidol.
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc fel y gallwn ni barhau i gynnig gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae ein gwaith wedi dechrau eisoes gyda dyrannu £250,000 ar gyfer datblygiad rhaglen datblygu rhai sy'n gadael yr ysgol yng nghyllideb 2020/21 gyda'r bwriad o ddechrau denu a chyflogi pobl ifanc. Bydd yr adnodd cymedrol yma'n caniatáu i ni ddatblygu dull a all gael ei wreiddio a'i ddatblygu yn y dyfodol fel cyfraniad at ostwng oedran y gweithlu.

Mae datblygiad allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ei arwain yn uniongyrchol gan ein staff. Canllaw i'n staff gan ein staff yw ‘Y Ffordd yr ydym yn Gweithio’. Mae'n nodi'r gwerthoedd cyffredin a'r ymddygiad a ddisgwylir gan bawb, waeth beth yw eu rôl neu statws, i'w ddangos ar bob adeg wrth iddyn nhw wneud eu gwaith dydd i ddydd yn Nhorfaen. Mae Y Ffordd yr Ydym yn Gweithio wedi ei ddatblygu trwy gyfres o drafodaethau a sesiynau ymgysylltiad â staff. Ein bwriad yw dod â bywyd i'n gwerthoedd, gan ddangos beth yw eu hystyr i'n staff a sut yr ydym yn eu gweld yn cael eu defnyddio pob dydd i wneud gwahaniaeth.

Un o amcanion allweddol y strategaeth Rheoli Asedau sy'n cael ei datblygu fydd edrych ar ein ôl troed o ran gofod swyddfa a chefnogi'n staff i

weithio mewn ffordd fwy hyblyg. Rydym wrthi'n edrych i mewn i brosiect, a fydd yn edrych nid yn unig ar ad-drefnu ein gofod swyddfa ond hefyd ar sut allwn ddod â hyn i mewn i'r 21ain ganrif, fel ei bod yn fwy tebyg i'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan weithle modern.

Bydd ein gwaith yn cael ei gefnogi trwy ddatblygu ein dull o weithio'n hyblyg. Dylai hyn ddod â buddion niferus, gyda chefnogaeth i staff nid yn unig i weithio sut a ble mae'n gyfleus iddyn nhw er mwyn bod fwyaf cynhyrchiol ond bydd hefyd yn lleihau ein hamser teithio ac effaith teithio ar yr amgylchedd.

Fel rhan o brosiect ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill Gwent, cafwyd arian gan Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel i gefnogi gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan. Mae 65 o bwyntiau gwefru cyflym yn cael eu gosod mewn 34 o feysydd parcio cynghorau yng Ngwent. Bydd 10 o'r pwyntiau gwefru yma ar draws 7 maes parcio yn Nhorfaen. Bwriad y prosiect yw mynd i'r afael â rhwystrau i bryniant cerbydau trydan sy'n cael eu hachosi gan ddiffyg lleoedd parcio oddi ar y stryd ble gallai gwefru ddigwydd

Ymgymerwyd hefyd ag adolygiadau o'r fflyd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Ngwent - gan gynnwys y Cyngor. Mae hyn wedi dangos cyfleoedd i ddatgarboneiddio’r fflyd gweithredoedd a'r fflyd lwyd (teithio ar fusnes gan staff)

Mae ein Strategaeth Caffael sy'n datblygu yn gosod cynaliadwyedd a chynlluniau polisi amrywiol eraill a gysylltir â chaffael wrth ei chalon. Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n gynaliadwy wrth gael nwyddau mae angen i ni sicrhau fod y sefydliadau yr ydym yn delio â nhw yn rhannu'r un foeseg. Bydd ein strategaeth caffael felly'n edrych ar gynlluniau polisi amrywiol Llywodraeth Cymru (LlC) fel;

- yr economi sylfaenol - bwriad LlC i ailsefydlu Cymru ar flaen y gad wrth wireddu gwerth cymdeithasol mewn caffael trwy feithrin cadwyni cyflenwi lleol cryf,
- cod ymarfer ar gyflogaeth foesegol - i sicrhau fod cyflogeion mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac mewn cydymffurfiad â llythyren ac ysbryd y gyfraith,
- partneriaeth gymdeithasol - fel y gall cwmnïau yn cael eu ffafrio os ydyn nhw'n glynu at arferion gwaith teg, gyda'r bwriad o wella ansawdd gwaith a mynediad cyflogeion at eu hawliau, a
- newid yn yr hinsawdd - i sicrhau fod sefydliadau yr ydym yn gweithio â nhw'n cyd-fynd â'r datganiad o argyfwng hinsawdd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda BGCau Torfaen a Chasnewydd i adnabod y risgiau y gallwn eu disgwyl yn y dyfodol y bydd angen i gyrff cyhoeddus ymateb iddyn nhw.

Bydd hyn yn ysbrydoli datblygiad cofrestr risg y BGC a bydd angen i ni ystyried yn fewnol sut mae hyn yn cysylltu â'n cofrestr risg corfforaethol.

## Dyrannu ein hadnoddau

Mae’r rhan fwyaf o’n harian yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru trwy ein cytundeb terfynol a grantiau a roddir i ddibenion penodol. Yr unig adnoddau arwyddocaol sydd ar gael i ni eu penderfynu mewn perthynas ag incwm refeniw yw ffioedd a thaliadau am y gwasanaethau rydym yn eu darparu, a lefel y Dreth Gyngor. Er gwaethaf yr argraff sydd gan lawer o bobl, mae’r Dreth Gyngor yn cynrychioli dim ond rhyw 17% o’n cyllid gros.

Mae ein hagwedd tuag at bennu ein cyllideb yn 2020/21 yn un sy’n parhau i fuddsoddi mewn / amddiffyn ein blaenoriaethau ac amcanion yn y cynllun corfforaethol h.y.:

- cynorthwyo gyda galw cynyddol gan ariannu Gwasanaethau Plant ar lefel galw 2019/20
- ariannu'n llawn y pwysau ar ysgolion yr amcangyfrifir ei fod yn £3.4miliwn
- cynnal ein cyllidebau gwyrddio a glanhau, gan ganiatáu gwariant ychwanegol ‘un tro’ o hyd at £150,000 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon gan aelodau.

Mae cyfarfod Pwyllgor Craffu Trawsbynciol Adnoddau a Chorfforaethol wedi ystyried y gyllideb ar gyfer 2020/21 ar dri achlysur:

- Yng Ngorffennaf 2019 - trafodaeth ar y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig - gydag Aelodau'n nodi meysydd ar gyfer adolygiad;
- Hydref 2019 – sesiwn friffio caeedig i aelodau ar yr amcangyfrifon drafft cychwynnol a lefel gwirioneddol yr her ariannol. Roedd aelodau'n ymwneud â heriau i wasanaethau a phenawdau'r pwysau cost. Nododd y cyfarfod hefyd y pecynnau gwaith sy'n cael eu cyflwyno i fynd i'r afael a'r diffyg;
- Ionawr 2020 - ystyriaeth fanwl o'r lleddfiadau 1% a'r cynigion ehangach i gydbwyso'r gyllideb fel nodwyd yn sesiwn fis Hydref.

Amlinellir isod y gyllideb arfaethedig bresennol yn ôl Maes Gwasanaeth (yn erbyn y gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2019/20):

| | Gwaelodlin Ddiwygiedig 2019/20 (£'000oedd) | Cyllideb net arfaethedig 2020/21 (£'000oedd) |
|---|---|---|
| **Addysg gan gynnwys ysgolion** | 69,959 | 75,432 |
| **Gofal Cymdeithasol a Thai** | 44,325 | 46,999 |
| **Gwasanaethau Cymdogaeth** | 18,631 | 19,486 |
| **UCGC** | 982 | 1,044 |
| **TGCh** | 2,971 | 3,160 |
| **Adnoddau** | 6,555 | 6,881 |
| **Prif Weithredwr** | 6,131 | 6,363 |
| **Cyllid Cyfalaf** | 11,150 | 11,158 |
| **Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor** | 9,354 | 9,581 |
| **Awdurdod Tân De Cymru** | 4,337 | 4,534 |
| **Arall** | 2,567 | 2,296 |
| **Cyfanswm** | **176,962** | **186,934** |

I sicrhau bod unrhyw liniariad yn cael ei gynllunio'n iawn, gyda'r holl effeithiau posibl wedi eu hystyried a lle bo modd, wedi eu lliniaru, mae Asesiadau Lles wedi eu datblygu o gymharu â'r cynigion perthnasol a gytunwyd. Bydd manylion llawn ein cyllideb derfynol ar gael ar ein gwefan

**Strategaeth Gyfalaf**

Gwariant cyfalaf yw'r arian sy'n cael ei wario ar asedau, fel ein heiddo a'n cerbydau, sy'n cael eu defnyddio am dros flwyddyn. Trwy ddeddfwriaeth ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gennym ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf Ein prif feysydd gwariant yn y tabl yw:

- Addysg - Rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n dod i ben yn 2020/21 gyda chwblhau canolfan 6ed dosbarth newydd ym Mharth Dysgu Torfaen
- Grantiau Cyfleusterau Anabl Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.
- Gwasanaethau Cymdogaeth ar briffyrdd a rheoli asedau, ble mae dyraniadau blynyddol o gyllideb cyfalaf craidd y Cyngor. Ychwanegir at y dyraniad yma gan grantiau a ddyrannir yn flynyddol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth leol gan gynnwys Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a hefyd cynlluniau adfywio a ariennir gan grantiau a glustnodwyd oddi wrth arianwyr fel y Loteri Genedlaethol.
- Corfforaethol, gan gynnwys ffioedd rhaglenni cyfalaf, llety corfforaethol a chyfraniad y Cyngor i raglen y Fargen Ddinesig.

- Adnoddau i'w dyrannu gan gynnwys arian a glustnodwyd gan y Cyngor ar gyfer Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r adnodd y gellir ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau amgen sy'n cefnogi blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol.

| I gyd yn £ filiynau | 2019/20 Diwygiedig | 2020/21 Amcangyfrif | 2021/22 Amcangyfrif | 2022/23 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | 30.80 | 7.68 | 1.67 | 0.00 |
| **Gofal Cymdeithasol a Thai** | 2.05 | 1.10 | 1.10 | 1.10 |
| **Gwasanaethau Cymdogaeth** | 11.27 | 4.54 | 2.96 | 1.18 |
| **Corfforaethol** | 0.91 | 1.38 | 0.89 | 0.89 |
| **Adnoddau i'w dyrannu** | 0.10 | 4.96 | 2.03 | 2.03 |
| **Cronfa Gyffredinol** | **45.13** | **19.66** | **8.65** | **5.20** |

Mae ein setliad dros dro a'n rheolaeth a'n cyflenwad o'r rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd yn golygu bod adnoddau ar gael i ddatblygu strategaeth gyfalaf. Bydd y strategaeth yn ystyried:

- Cefnogi'r cynigion a gytunwyd eisoes ar gyfer Band B ysgolion yr 21ain Ganrif ac unrhyw newidiadau gan gynnwys cynnydd mewn arian fel cost ECO yn Ysgol Maendy.
- Cefnogaeth ariannol i estyniad i Ysgol Crownbridge;
- Arian ar gyfer ysgol ymddygiad newydd yn y tymor canolig;
- Arian i gefnogi'r awydd i leihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r Sir gan Ofal Cymdeithasol;
- Darparu buddsoddiad cymedrol i gefnogi cyfeiriad polisi'r Cyngor e.e. Fferm Gymunedol;
- Darparu cydnerthedd ariannol os oes angen ar gyfer cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo/sy'n mynd ymlaen eisoes

Yn y tymor canolig tuag at y tymor hir byddwch yn cadw golwg ar ddatblygiad y parc meddygol (yr Ysbyty £350 miliwn, Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agos i Gwmbrân) ac unrhyw ofynion cyfalaf posibl sy'n gysylltiedig â'r datblygiad newydd yma.

Bydd ein hadnoddau cyfalaf sydd ar gael yn rhan o gyllideb y Cyngor a fydd yn cael ei chyflwyno i'w hystyried gan y Cyngor llawn yn eu cyfarfod ym Mawrth 2020. Bydd y strategaeth ei hun yn mynd at y Cyngor ym Mehefin 2020, gan roi amser yn briodol i sicrhau fod y cynigion wedi eu datblygu, yn ddeallus ac yn amodol ar yr ymgynghoriad angenrheidiol.

# Rhan 5 – Cysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol

Mae Deddf LlCD 2015 yn un o lawer o ddarnau o ddeddfwriaeth y mae gofyn i ni gydymffurfio â nhw fel awdurdod lleol.. Mae'n bwysig nad ydym yn gweithredu ein dyletswydd i ddefnyddio'r egwyddor datblygiad cynaliadwy ar ei ben ei hun ond ein bod yn ystyried sut mae hyn yn ffitio gyda'n dyletswyddau deddfwriaethol eraill hefyd.

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae gofyn i ni, o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar y camau rydym wedi eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus â'n hamcanion cydraddoldeb ein hunain. Yn ein hadroddiad blynyddol rydym yn dangos ein cyfraniad positif tuag at gymdeithas decach trwy gyflenwi gwasanaethau wrth roddi ystyriaeth ddyledus i ddileu gwahaniaethu. Cyhoeddir ein hadroddiad blynyddol ym Mawrth bob blwyddyn, gan ganolbwyntio ar ein hamcanion cydraddoldeb strategol ac ystyried y gwaith syn cael ei wneud ar y camau gweithredu sydd dan bob un ohonynt. Mae rhai o'n diweddariadau diweddaraf yn cynnwys:

Cael y Wobr Arian 2018 am y **Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn** a gweithio tuag at weithredu cynllun cyfweliad gwarantedig ar gyfer cyn-bersonél y lluoedd arfog. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y rheini ag anableddau a gafwyd yn dilyn brwydrau.

Datblygu **Polisi Menopos** i helpu'r sefydliad i ddeall a diwallu anghenion menywod sy'n mynd trwy'r menopos. Lansiwyd hyn yn hydref 2019.

Gweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol o gefnogi ffoaduriaid i gael gwaith. Mae edrych ar gyfleoedd sy'n berthnasol i fuddiannau'r unigolyn wedi galluogi ffoaduriaid i ddysgu sgiliau newydd sy'n berthnasol i'r farchnad swyddi leol yn yr ardaloedd y maen nhw wedi ymgartrefu ynddynt. Hyd yma rydym wedi ailsefydlu 35 o ffoaduriaid i'r fwrdeistref.

Rhoi £8,000 i ariannu **gweithdai Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth** yn ysgolion Torfaen. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant staff yn ogystal â gweithdai gyda phlant, gan sicrhau bod gan staff mewn ysgolion yr hyder i herio achosion o hiliaeth a delio â nhw'n briodol.

Wedi parhau i ddatblygu **Cymunedau Sy'n Ystyriol o Ddementia** ac ehangu rhwydweithiau cymorth pobl trwy fodel ymyraethol o waith cymdeithasol er mwyn atal mynediad i ysbytai neu fynediad i fathau arall o ofal.

Datblygiad **Senedd Ieuenctid i Dorfaen**: Mae Fforwm Pobl Ifanc Torfaen ac aelodau'r grŵp Thema Ymgysylltu a Chyfranogi (sydd o dan y fframwaith adrodd plant a phobl ifanc) wedi gweithio gyda'i gilydd i archwilio model i atgyfnerthu cyfranogiad pobl ifanc, gan sicrhau cynrychiolaeth amrywiol.

**Cynrychioli Pobl Ifanc ar Lefel BGC**: Gwahoddwyd dau aelod o'r fforwm ieuenctid i eistedd ar y BGC a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ym myd Addysg a Chynghorwyr perthnasol.

Bydd ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024** yn cael ei gyhoeddi ym Mawrth 2020. Y 5 amcan drafft yw:-

1. Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eu deall.
2. Sicrhau bod hawliau pobl a chymunedau yn cael eu parchu a'u bod yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth.

3. Gweithio i ddileu'r anfanteision a'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl gyrchu'r un cyfleoedd â phawb arall.
4. Cynnwys pobl a chymunedau mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.
5. Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n ddyletswyddau cydraddoldeb statudol a'i ddyletswyddau Iaith Gymraeg.

**Dyletswydd economaidd-gymdeithasol**

Bydd yr amcanion newydd hefyd yn ystyried dyletswydd gyfreithiol newydd sydd yn dod i rym yng Nghymru ar 1af Ebrill 2020, y ddyletswydd economaidd- cymdeithasol. Mae'r ddyletswydd newydd hon yn ceisio sicrhau bod anghenion a hawliau pobl sy'n byw mewn tlodi ar flaen ein meddyliau pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau strategol. Bydd cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd yn helpu i yrru gweithredu ar draws sefydliadau statudol i helpu'r rhai sydd fwyaf difreintiedig, i roi'r cyfle gorau posibl iddynt mewn bywyd a gwella eu siawns o symud i fyny'n gymdeithasol.

Cydnabyddir bod pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi; felly byddwn yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystrau allweddol o ran symudedd cymdeithasol i'r grwpiau hyn.

Mae cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ymwneud â mynnu bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn:

- ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol;
- dangos eu bod wedi ystyried tystiolaeth sydd ar gael ar anfantais economaidd-gymdeithasol i lywio sut y gallent dargedu eu polisïau a'u hadnoddau yn well i helpu'r rhai sydd fwyaf difreintiedig;
- cydbwyso natur ddymunol y nod hwnnw ag amcanion eraill;
- gweithio o fewn cyllidebau ac adnoddau a ddyrannwyd ar hyn o bryd, ac o fewn prosesau cynllunio, gwneud penderfyniadau ac sy'n bodoli ar hyn o bryd.

## YR IAITH GYMRAEG

Mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio gyda Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhoi'r rhyddid i drigolion a'n staff ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd

Fel rhan o'n rhwymedigaethau y rhoddir manylion ohonynt yn ein Hysbysiad Cydymffurfio, rydym wedi cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd ym Mehefin 2016 a oedd yn dangos sut y byddem ni, gyda phartneriaid allweddol, yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y fwrdeistref. Nododd hon ein cyfeiriad strategol yn ystod 2017 – 2022, i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref a chefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae nifer o ddyletswyddau deddfwriaethol eraill y mae'r strategaeth yn adeiladu arnynt, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – un o'r saith amcan lles yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Nod y Strategaeth Iaith Gymraeg yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol siaradwyr Cymraeg trwy weithio gyda phartneriaid yn y maes.

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – Mae'r Ddeddf yn gofyn i ni roddi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant, iaith a chred unigolion sy'n derbyn ein gofal. Mae hyn wedi ei integreiddio mewn cynllunio gwasanaeth a gwneud "Cynnig Actif" o dan Strategaeth Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru, gan ganiatáu i siaradwyr Cymraeg gyfathrebu yn eu dewis iaith heb orfod gofyn am wasanaeth Cymraeg.

- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013)** – Mae'r Ddeddf yn rhoi gofyniad statudol i ni i baratoi a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yn amlinellu canlyniadau a thargedau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg Gymraeg ei chyfrwng. Cafodd ein WESP ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018. Mae'r Strategaeth yn cydnabod cyfraniad anferth ysgolion Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg a chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu Gymraes. Bydd ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hollbwysig ar gyfer llunio proffil ieithyddol Torfaen yn y dyfodol. Mae'r gwaith o gyflwyno'r WESP wedi dechrau, gan gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg gyfrwng Gymraeg ar gyfer Medi 2021 210 lle ar lefel gynradd a 30 (cyfystyr ag amser llawn) ar lefel feithrin. Mae hyn yn golygu cynnydd o 21% yn y ddarpariaeth gynradd ar sail capasiti presennol.


Pob blwyddyn rydym yn paratoi Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg yn manylu ein cynnydd o ran cydymffurfio gyda Safonau'r Iaith Gymraeg a'i gyhoeddi ar ein gwefan gorfforaethol. erbyn 30ain Mehefin 2020.

## BIOAMRYWIAETH

Mae cyfraniad Cymru tuag at ddatblygiad cynaliadwy, twf gwyrdd ac egwyddorion y Dull Ecosystem wedi eu cynnwys yng nghyfraith Cymru drwy Ddeddf LlCD 2015 a Deddfau Amgylchedd (Cymru) a Chynllunio (Cymru). Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**I'n helpu i wireddu'r amcanion, rhaid inni gynllunio sut ydym yn defnyddio'n tir a sut bydd ein dinasoedd, trefi a chymunedau'n newid dros amser**

- Gyda **system sy'n seiliedig ar gynllun**, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall beth sydd ei angen ar eu cymunedau. Bydd dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried y 'cynllun llesiant lleol' a gyhoeddir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Trwy ymwneud yn fwy yn y **cam cyn ymgeisio**, bydd cymunedau yn cael cyfrannu'n fuan yn y broses gynllunio i ddylanwadu ar gynigion datblygu.
- Bydd **Cynlluniau Datblygu Strategol** yn canolbwyntio ar feysydd sy'n bwysicach na'r lleol. Yr allwedd yw ymdrin â datblygu sydd o natur strategol.
- Bydd y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran defnyddio tir.




**Rhaid cysylltu'r ffordd rydym yn defnyddio'n tir â'r ffordd rydym yn rheoli'n hadnoddau naturiol.**

- **Rheoli adnoddau naturiol** - yn dylanwadu ar flaenoriaethau a chyfleoedd trwy dystiolaeth ar sail ardal.
- **Sail tystiolaeth** sy'n fwy cyson a phroactif ac wedi'i blaenoriaethu, ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol i gyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a lleol
- Cyfleoedd wedi'u blaenoriaethu i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau a sicrhau'r **datblygiad iawn** i gefnogi cynllunio positif.

**Mae ein hadnoddau naturiol yn hanfodol inni allu sicrhau llesiant Cymru gynaliadwy:**

- Adlewyrchir cydnerthedd a'r ffordd y defnyddir ein hadnoddau naturiol yn y saith **amcan** llesiant
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o'r 44 o **gyrff cyhoeddus** sy'n dod o dan y ddyletswydd datblygu cynaliadwy ac sy'n aelod o **Banel Cynghori** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Yr **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** fydd yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer ein hadnoddau naturiol gan ddylanwadu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt asesu llesiant.
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod statudol o bob **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)**, gan gefnogi partneriaethau ar draws y sector cyhoeddus i wneud y gorau o'u cyfraniad at yr amcanion llesiant.
- Bydd **datganiadau ardal** yn nodi anghenion, cyfleoedd a heriau lleol o fewn cyd-destun cynlluniau rheoli adnoddau lleol a llesiant lleol.

(Adran 6, Rhan 1) ddyletswyddau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau cryfach (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd A6 yn gofyn i ni gynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

"I gydymffurfio gyda'r ddyletswydd A6 mae gofyn i ni ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn y cyfnodau cynnar ac wrth gynllunio busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, ynghyd â busnes beunyddiol y gyfundrefn. I gydymffurfio gyda'r ddyletswydd A6, rhaid i ni baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau gan nodi sut rydym yn bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwytnwch.

Rydym yn y broses o ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd hon. Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau y Cyngor ac wedi penodi swyddog i gydlynu cyflenwi'r cynllun.
*Mae Ffig. 11* yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd Cymru yn cyflawni ei ymrwymiadau trwy fyw o fewn ei moddion amgylcheddol.

Mae'r cynllun drafft yn ystyried deddfwriaeth a pholisïau allweddol, y prif un o'r rhain yw Deddf LlCD sy'n cydnabod y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth, ecosystemau deinamig a lles. Ein Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau yw'r allwedd i gyflawni amcan cyffredinol LlCD o "Hyrwyddo'r egwyddor datblygiad cynaliadwy, yn benodol gweithredu fel ceidwaid gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i gymryd mwy o ystyriaeth o effaith hirdymor y pethau maent yn eu gwneud."

## Rhan 6 – Adrodd ar ein Cynnydd

Trwy gydol y flwyddyn byddwn yn gwerthuso ein perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella a lles i roddi arfarniad gonest o'r cynnydd. Byddwn yn dadansoddi'r manteision a gyflenwir gan ein gweithgareddau, a chan ddefnyddio ein fframwaith hunanwerthuso a'r swyddogaeth drosolwg a chraffu, byddwn yn profi os dylid cyfeirio adnoddau tuag at weithgareddau eraill y flwyddyn nesaf.

Yn unol â'n gofynion statudol, byddwn yn cyhoeddi un adroddiad lles a pherfformiad blynyddol yn nodi'r cynnydd yn erbyn y ddogfen hon.

Bydd fersiwn llawn yr adroddiad ar gael i'w weld ar ein gwefan ar ôl 31 Hydref 2020..

**ATODIAD 1**

## EIN BLAENORIAETH CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLIANT 2019/20...

**… TORFAEN LÂN A GWYRDD**

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen …

- **Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi ei gysylltu, o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol poblogaethau lleol**
- **Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen...

**Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth2020 ein Cynllun Corfforaethol 3 …

| Ein nodau yn 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn …** | • cadw'r fwrdeistref yn lân a rhydd rhag sbwriel<br>• cynnal mannau agored ar dir ym meddiant y cyngor i safon dderbyniol a gweithio gyda thirfeddianwyr preifat a phartneriaid lleol i sicrhau hyn<br>• gweithio mewn modd cynaliadwy i sicrhau bod ein hamgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>• gofyn i drigolion am eu barn ar gynnal mannau agored yn eu cymunedau<br>• erlyn y sawl a ddelir yn cyflawni troseddau amgylcheddol lle bo modd |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • trigolion i weithio i wella golwg eu cymuned leol |
| **Fel Cyngor, rydym yn disgwyl i drigolion …** | • beidio â thaflu sbwriel, tipio'n anghyfreithlon neu adael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus.<br>Mae pob punt sydd angen ei gwario ar ymddygiad difeddwl a gwrthgymdeithasol fel hyn yn bunt yn llai i'w gwario ar wella'r ardal<br>• cynyddu ailgylchu, lleihau gwastraff ac adrodd am droseddau amgylcheddol |

**Ein gweithgareddau i gyflawni ein hamcanion gwella a lles yn 2020/21 …**

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Datblygu Fferm Solar yn hen safle sbwriel Tŷ Coch** | Bydd ein datblygiad 3.04MW arfaethedig yn creu tua 3.047MW yr awr o ynni adnewyddol y flwyddyn gan leihau $CO_2$ 48,140 $tCO_2$ trwy ei oes a dod ag incwm o tua £24k y flwyddyn i'r awdurdod<br><br>Mae’r cynhyrchu yn cyfateb i ddefnydd 928 o aelwydydd y flwyddyn yn Nhorfaen, a bydd hyn yn cynorthwyo gyda’r targed o Gymru'n cynhyrchu 70% o'i drydan o ffynonellau adnewyddadwy lleol erbyn 2030. |
| **Gweithredu'n Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon** | Bydd ein strategaeth yn cynnig dull cydlynus a strategol o daclo sbwriel a thipio anghyfreithlon gan symud i ffwrdd o'n proses adweithiol presennol. |
| **Cwblhau'r achos busnes ar gyfer caffael casgliadau gwastraff/ailgylchu newydd. Mae cerbydau ailgylchu’n dod at ddiwedd eu bywydau ac mae angen cael rhai newydd Gallai hyn olygu prynu cerbyd gwahanol a allai olygu newid mewn gwasanaeth i drigolion** | Bydd cerbydau newydd yn fwy effeithlon a chyfeillgar i'r amgylchedd.<br><br>Hefyd, disgwylir, oherwydd trefn y cerbydau newydd, byddwn yn gallu lleihau nifer y cerbydau y mae eu hangen gan leihau effaith amgylcheddol casgliadau gwastraff ymhellach. |
| **Nodi effaith y Datganiad Newid yn yr Hinsawdd ar fusnes y Cyngor a pharatoi strategaeth/cynllun gwaith yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud.** | Mae cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu i gario ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys camau i addasu i a lliniaru'r hinsawdd a bydd yn effeithio ar bob rhan o weithgaredd y Cyngor. |
| **Mabwysiadu’r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd (sy'n cyflenwi Amcan 1 y Cynllun L lesiant) gan y Cyngor a'r BGC** | Bydd y strategaeth yma'n penderfynu sut fyddwn ni'n cynnal, gwella a hyrwyddo'n hamgylchedd naturiol i lwyddo gyda nodau ac amcanion llesiant. |
| **Gwastraff Cynllun Cwsmer a Digidol T22**<br>**Datblygiad a gweithredu cynllun busnes i wella profiad y cwsmer o'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff** | Byddwn yn cyflwyno gwell profiad ar-lein ar gyfer casgliadau eitemau swmpus. Hefyd, byddwn yn datblygu achos busnes ar gyfer gwella systemau a thechnoleg yn y gwasanaeth (yn cyd-fynd â chaffaeliad cerbydau). |

**Sut byddwn yn mesur ein cynnydd yn 2020/21 …**

| ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 perfformiad | ein targed yn 2019/20 | perfformiad 2019/20 hyd yma | ein targed CC3 ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| % ( a nifer) achosion tipio anghyfreithlon a adroddwyd wedi eu clirio o fewn 5 diwrnod | Gorau po uchaf | 99.03%<br>915 | 98% | 97.59%<br>687 | 98% |
| % cwynion glendid sy'n cael ymateb o fewn safonau deddf cymdogaethau glân<br>i) gwydr wedi torri;<br>ii) baw cŵn ar wynebau caled<br>iii) ceisiadau gordyfiant/rhwystrau | Gorau po uchaf | i. 85.6%<br>ii. 95.78%<br>iii. 29.81% | i. 86%<br>ii. 86%<br>iii. 86% | i. 78.26%<br>ii. 94.05%<br>iii. 46.79% | i) 86%<br>ii) 86%<br>iii) 86% |
| % o bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol yn rhydd rhag sbwriel a gwastraff NSfW (2013/14) | Gorau po uchaf | 31.14%<br><br>(Arolwg Trigolion Torfaen) | I'w gytuno. Rhaid cysylltu ag arolwg trigolion na ddefnyddiwyd yn flaenorol NSfW | 29.66% | 66% |
| % y bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol wedi'i chynnal yn dda NSfW (2013/14) | Gorau po uchaf | 39.14%<br><br>(Arolwg Trigolion Torfaen) | I'w gytuno - Rhaid cysylltu ag arolwg trigolion na ddefnyddiwyd yn flaenorol NSfW | 41.40% | 77% |
| Arwynebedd tir dan reolaeth bioamrywiaeth gadarnhaol | Gorau po uchaf | 1470 ha | 1,500 ha | 1,470 ha | 1,500 ha |
| % o wastraff yr awdurdod lleol sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio | Gorau po uchaf | 60.53% | 64% | 65.75% | 64% |
| Tunelli o wastraff a yrrir i'w waredu | Gorau po isaf | 18,186.74 tunnell | 17,000 tunnell | 11,718.93 tunnell | 16,500 tunnell |
| Cyfranogiad trigolion mewn ailgylchu –<br>a) gwastraff bwyd, a<br>b) gwastraff sych | Gorau po uchaf | 61.10%<br>96.15% | 58%<br>86% | 65.38%<br>94.08% | 58%<br>87% |
| % achosion tipio anghyfreithlon a arweiniodd at gamau gorfodi | Gorau po uchaf | 5.84% | 6% | 6.39% | 7% |

**ATODIAD 2**

## EIN BLAENORIAETH CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLIANT 2019/20...

**… CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL**

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen -

- **Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc**
- **Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen -

**Mae pob person ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg o safon dda.**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth 2020 ein Cynllun Corfforaethol 3…

| **Ein nodau yn 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon …** | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn …** | • gweithio gydag ysgolion a staff dysgu i godi cyrhaeddiad ac annog holl bobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16<br>• gweithio gyda phob ysgol sy'n cael eu sgorio'n wyrdd neu'n felyn yn y system genedlaethol o Gategoreiddio Ysgolion<br>• sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd, yn arbennig 'plant mewn gofal', rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu all o fod angen derbyn gofal<br>• gweithio i gau'r bylchau rhwng rhywiau a llwyddiant cymdeithasol-economaidd<br>• gweithio i sicrhau bod gan holl ddysgwyr sgiliau llythrennedd a rhifedd effeithiol<br>• Cynllunio ar gyfer adeiladau ysgol newydd a gwell sy'n addas i'r pwrpas yn y 21ain ganrif<br>• cefnogi ac annog ein pobl ifanc i'w rhwystro rhag mynd yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)<br>• gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ein pobl yn datblygu'n ddinasyddion llawn gyda'r cyfle gorau posibl yn y farchnad swyddi bresennol<br>• Cydnabod pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar, adnabod anghenion dysgwyr ac addasu gwasanaethau i sicrhau bod holl blant a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddysgu a chyflawni" |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • cyrff llywodraethol i sicrhau bod ganddynt y capasiti i gynnig her a chymorth i'w hysgolion a chodi dyheadau a chyrhaeddiad |
| **Fel Cyngor, rydym yn disgwyl i rieni a gofalwyr …** | • fod â dyheadau uchel ar gyfer eu plant a chyfrannu'n weithredol tuag at, ac ymgysylltu gydag addysg eu plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn barod i ddysgu a gwneud cyfraniad positif |

Ein gweithgareddau i gyflawni ein hamcanion gwella a lles yn 2020/21 …

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Adolygu effeithlonrwydd trefniadau a phrosesau cynllunio trosglwyddo Blynyddoedd Cynnar ac Ôl-16 i ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n trosglwyddo i'r coleg newydd ym Medi 2020.** | Trwy gryfhau cynllunio trosglwyddo, byddwn yn hyrwyddo parhad i'r holl blant sy'n trosglwyddo rhwng lleoliadau, gan alluogi plant i setlo'n gyflym mewn lleoedd newydd, cefnogi eu datblygiad a gwella cyrhaeddiad disgyblion.<br><br>Byddwn yn sicrhau y bydd trosglwyddiad rhwydd i'r coleg newydd i'n disgyblion ADY ôl-16 trwy broses drosglwyddo uwch newydd ar gyfer disgyblion ADY sy'n trosglwyddo i'r coleg 6ed dosbarth newydd (Parth Dysgu Torfaen). |
| **Datblygu polisïau a gweithdrefnau yn unol â'r Cod ADY newydd a'r Ddeddf ADY.**<br>**Dilynir yr amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y symudiad o ddatganiadau AAA i Gynlluniau Datblygu (CDU).** | Byddwn yn sicrhau ein bod yn barod (ynghyd â'n hysgolion) ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig newydd. Gan gynnwys gofynion i,<br>– Ddatblygu cynlluniau datblygu unigol gyda'r pwyslais ar gynnig darpariaeth sy'n dod â deilliannau gwirioneddol sy'n cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at fod y plentyn neu berson ifanc yn cyrraedd eu llawn botensial.<br>– Cymryd cyfrifoldeb am ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0 i 25, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at addysg a/neu hyfforddiant priodol, gan gynnwys addysg orfodol ac addysg ôl-16 neu hyfforddiant arbenigol ble bo hynny'n angenrheidiol.<br>– Penodi Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar er mwyn cyfrannu at wella adnabyddiaeth gynnar ac ymyrraeth mewn perthynas ag ADY, a sicrhau cynllunio gwell ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.<br>– Rhoi gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system newydd i blant, pobl ifanc ac eraill, a sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb sydd ei angen. |
| **Adolygu'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael a phenderfynu pa ddarpariaeth arbenigol y mae ein hangen.**<br>**Setiau data cywir i fod ar gael i benderfynu'r ddarpariaeth y mae ei angen yn Nhorfaen ar gyfer disgyblion ag ADY.** | Bydd opsiynau yn cael eu hystyried ar gyfer ehangu'r ysgol arbennig bresennol a chreu ysgol newydd i blant sydd ag anawsterau emosiynol a/ neu ymddygiadol. |
| **Arolygu pwrpas a chynllun busnes yn y dyfodol ar gyfer Hyfforddiant Torfaen yn wyneb penderfyniadau contract Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru a Dysgu Seiliedig ar Waith.** | Bydd ffordd ymlaen i Hyfforddiant Torfaen yn cael ei phenderfynu o dan y Strategaeth Economi a Sgiliau. Bydd blaenoriaethau a benderfynir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwad a buddsoddiad yn cael eu cyflwyno. |

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Paratoi cynllun busnes ar fodelau cynaliadwyedd i'r dyfodol ar gyfer prosiectau NEET.** | Sicrhau fod pobl ifanc bregus sydd mewn perygl o fod yn NEET yn cael cymorth i gyrraedd pwyntiau priodol o dan y model o ddarpariaeth Ôl-16 yn Nhorfaen, ac unwaith na fydd arian ESF ar gael ar gyfer ein prosiectau. |

**Sut byddwn yn mesur ein cynnydd yn 2020/21 …**

| ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | Perfformiad 2019/20 hyd yma | ein targed CC3 yn 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| % disgyblion yn cael trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg<br>Holl ddisgyblion<br>Disgyblion nad ydynt yn cael pryd ysgol am ddim<br>Disgyblion pryd ysgol am ddim<br>Bechgyn<br>Merched | Gorau po uchaf | 48.9%<br>54.5%<br>24.1%<br>43%<br>54.8% | Amherthnasol | 48.3%<br>54%<br>23.6%<br>55.4%<br>38.3% | Amherthnasol |
| % disgyblion yn cael trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg | Gorau po uchaf | 10% | Amherthnasol | 12% | Amherthnasol |
| System Categoreiddio Ysgolion- Nifer yr Ysgolion yn y Categori Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch (Canran) | Gorau po uchaf | 74.19% gwyrdd neu felyn (22 Cynradd/1 uwchradd)<br><br>6.45% coch (1 Cynradd/1 uwchradd) | 90% gwyrdd neu felyn<br><br>0% coch | 77.42% gwyrdd neu felyn (23 cynradd/1 uwchradd)<br><br>12/9 (1 Cynradd/3 uwchradd) | 90% gwyrdd neu felyn<br><br>0% coch |
| % ysgolion o leiaf ar ris 2 (B) ar gyfer Categoreiddio Cenedlaethol Arweinyddiaeth<br>Ysgolion cynradd<br><br>Ysgolion uwchradd | Gorau po uchaf | 84% (21 allan o 25)<br><br>33.33% (2 allan o 6) | 92% (23 allan o 25)<br><br>83% (5 allan o 6) | 92% (23 allan o 25)<br><br>17% (1 allan o 6) | 88% (23 allan o 26)<br><br>83% (5 allan o 6) |

| ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | Perfformiad 2019/20 hyd yma | ein targed CC3 yn 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| % o blant [yn derbyn gofal a chymorth] yn cyflawni dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 | Gorau po uchaf | 17.39% | Amherthnasol oherwydd newid i'r carfannau | Amherthnasol oherwydd newid mewn mesurau perfformiad | Amherthnasol oherwydd newid i'r carfannau |
| Buddsoddiad mewn ysgolion a chanolfan chweched dosbarth fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | Gorau po uchaf | £22.8 miliwn | £32 miliwn | £19 miliwn (hyd at ddiwedd Ion gydag ymrwymiad o £8 miliwn pellach | £86 miliwn<br><br>(yn gronnus i fis Mawrth 2019) |
| Canran y myfyrwyr sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (a nifer) | Gorau po uchaf | 92.3% | heb ei osod ar hyn o bryd | 94.9% | 97% |
| Canran y bobl ifanc (carfan Blwyddyn 11) a adroddwyd nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. | Gorau po isaf | 1.12% | 1.5% | 1.5% | 1.5% |
| % y disgyblion a gyflawnodd L4 yn y DPC,CA2<br>% y disgyblion a gyflawnodd L4 Saesneg, CA2<br>% y disgyblion a gyflawnodd L4 Mathemateg, CA2<br>% y disgyblion a gyflawnodd L4 Gwyddoniaeth, CA2<br><br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 yn y DPC,CA3<br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 Saesneg, CA3<br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 Mathemateg, CA3<br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 Gwyddoniaeth, CA3 | Gorau po uchaf | 91.3%<br>92.4%<br>92.9%<br>94.6%<br><br>88.3%<br>91.3%<br>93%<br>94.9% | 89.4%<br>91.1%<br>91.7%<br>93.3%<br><br>90.7%<br>91.2%<br>93.7%<br>94.4% | Amherthnasol<br><br>Ddim yn cael ei gasglu bellach oherwydd newidiadau mewn adrodd mesurau perfformiad | 85.3%<br>87.5%<br>88.1%<br>89.4%<br><br>90.7%<br>93.7%<br>92.5%<br>95.7% |

**ATODIAD 3**

## EIN BLAENORIAETH CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLIANT 2019/20...

### … CEFNOGAETH I DRIGOLION MWYAF BREGUS TORFAEN

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen …

- **Cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda.**
- **Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen...

**Cymuned iachach lle mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu cynorthwyo i fyw bywydau iach, annibynnol, lle mae'r cyngor ac asiantaethau eraill yn gweithio i rwystro dioddefaint a chaledi a lleihau anghydraddoldeb**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth ein Cynllun Corfforaethol 3 2020 …

| Ein nodau 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| Fel Cyngor, byddwn yn … | • cefnogi'r rheiny sydd ei angen fwyaf, gan roddi cymorth diogel, priodol ac urddasol i'n trigolion mwyaf agored i niwed, ond hefyd yn hybu annibyniaeth lle bynnag y bo modd<br>• gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol i helpu i wella bywydau'r rhai mwyaf agored i niwed<br>• Adnabod pobl sy'n agored i niwed cyn gynted ag y bo modd er mwyn medru ymyrryd yn gynnar i'w cynorthwyo a lle'n bosibl, er mwyn rhwystro eu problemau rhag gwaethygu. Rydym yn gwerthfawrogi gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd, a helpu'r Cyngor i arbed arian yn y tymor hir.<br>• weithio i drechu tlodi, yn enwedig tlodi plant, a lleihau anghydraddoldeb<br>• cefnogi rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel i wella eu sgiliau ac osgoi canlyniadau iechyd a chymdeithasol tlodi. |
| Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi … | • y trydydd sector a chymunedau i helpu pobl i ddod yn gydnerth yn ariannol ac yn gymdeithasol, gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymorth iawn i ddod yn fwy annibynnol. Byddwn yn cryfhau ein cymunedau, fel mannau lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd ac yn helpu ei gilydd mewn cyfnodau o angen.<br>• y gymuned i ddelio gyda materion iechyd penodol ac annog ffordd o fyw iach a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth sy'n galluogi i ddinasyddion wneud penderfyniadau gwybodus<br>• Gofalwyr di-dâl, fel cydnabyddiaeth o'r cyfraniad anferth maent yn ei wneud i gymdeithas. Byddwn hefyd yn ceisio deall eu hanghenion yn well |
| Fel Cyngor, rydym yn disgwyl | • i rieni a gofalwyr ofalu am eu plant a'u cadw'n ddiogel rhag niwed<br>• pobl i ofalu am ei gilydd a chadw llygad ar y bobl mewn mwyaf o angen |

**Ein gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio i gyflawni ein hamcanion gwella a lles yn 2020/21 ...**

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Byddwn yn parhau i weithredu'n Strategaeth Gofal yn y Cartref (yn amodol ar fod arian ar gael) gyda'r bwriad o gynyddu darpariaeth fewnol o 10% i 14% gan ganolbwyntio ar alluogi tymor byr, dementia tymor hir a gofal cymhleth.** | Mynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau gofal yn y cartref (yn unol â demograffeg a chymhlethdod) a rhestrau aros cleientiaid sy'n aros ar becynnau gofal sy'n arwain at oediadau wrth drosglwyddo gofal a/ neu bwysau ychwanegol ar ofalwyr anffurfiol. |
| **Byddwn yn adolygu ein darpariaeth ar sail gwelyau yn y tymor hir a'r tymor byr a fydd yn darparu atebion priodol i unigolion sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risgiau'n gadarnhaol a chynhwysiant cymdeithasol. Byddwn yn gwneud defnydd o stoc tai amgen fel gwelyau arhosiad tymor byr mewn hybiau cymunedol.** | Dyw trefniadau presennol ddim yn effeithiol o ran cost ac nid yw cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo neu gynnal rhaglenni annibynnol yn cael eu defnyddio yn ystod darpariaeth seibiant. Byddai datblygu uned arosiadau byr yn rhoi canlyniadau gwell a hyblygrwydd i unigolion. |
| **Byddwn yn ail ddiffinio ac yn ail-ddylunio cyfleoedd yn ystod y dydd gyda'r partneriaid allweddol gyda'r bwriad o ddarparu cefnogaeth seiliedig ar y person, sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn diddordebau a gweithgareddau i gyrraedd eu deilliannau a gwella'u lles.** | Bydd gwasanaeth cyfleoedd dydd ble mae pob dim yn dechrau gyda'r person yn arwain at unigolion yn llwyddo i gael mwy o ganlyniadau positif mewn bywyd a llwyddo yn eu breuddwydion ac uchelgais. |
| **Byddwn yn parhau i weithredu'n strategaeth tai trosfwaol er mwyn cyflenwi atebion fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer llety, gan sicrhau fod unigolion yn cael y gefnogaeth ac ymyraethau cywir.** | Er mwyn mynd i'r afael â'r galw am dai fforddiadwy yn y fwrdeistref a chymryd pob cam rhesymol ac ymarferol naill ai i osgoi digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf neu sicrhau fod unrhyw ddigartrefedd yn fyr ac nid yw'n parhau i ddigwydd. |
| **Byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull amlasiantaeth o ddosbarthu atgyfeiriadau.** | Mynd i'r afael â phroblemau rheoli'r galw a mynediad priodol at y gwasanaethau perthnasol a sicrhau fod teuluoedd a phlant sydd ag unrhyw lefel o angen yn cael eu bodloni trwy dderbyn y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. |
| **Byddwn yn adolygu ein prosesau rheolaeth risg gyda'r bwriad o fabwysiadu dull ffurfiol o ddelio â risg / rheolaeth ar sail cryfderau.** | Byddwn yn sicrhau cysondeb wrth weithredu a chyflenwi'r gwasanaeth a bod y gwasanaeth cywir yn cael ei roi i deuluoedd a dyw angen ddim yn gwaethygu'n amhriodol. |
| **Byddwn yn adolygu trothwyon risg ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | Mae'r holl atgyfeirwyr yn deall y meini prawf ar gyfer atgyfeirio ac addasrwydd gwasanaethau cynhwysol o'u cymharu â gwasanaethau statudol, yn sicrhau fod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud, penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud a bod teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth iawn pan fo'r angen. |

**Sut byddwn yn mesur ein cynnydd yn 2019/20 …**

| ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | Ein targed yn 2019/20 | perfformiad 2019/20 hyd yma | ein targed CC3 ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| % o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi:<br>a. Ac sydd â phecyn gofal a chefnogaeth sy'n llai 6 mis yn ddiweddarach | Gorau po uchaf | 80.94% | 50% | 85.21% | 50% |
| b. A heb fod â phecyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | | 77.28% | 80% | 82.84% | 80% |
| % yr oedolion sydd wedi cael cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a heb gysylltu â'r gwasanaeth am 6 mis | Gorau po uchaf | 93.26% | 90% | 90.86% | 90% |
| Cyfran oedi trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd | Gorau po isaf | 3.24 | 5 | 2.70 (y flwyddyn hyd yma) | 5 |
| % trigolion Torfaen lle bu modd osgoi derbyn i ysbyty ar ôl atgyfeiriad 'Meddygol Cyflym' i Eiddilwch gan y MT | Gorau po uchaf | 97.78% | 96% | 96% | 96% |
| % o bobl sy'n fodlon gyda'r gofal a'r cymorth a gafwyd [gwasanaethau oedolion] | Gorau po uchaf | 84.19% | 85% | Amherthnasol – dim angen yr arolwg gan Lywodraeth Cymru bellach | 85% |
| % o blant a gefnogwyd i aros gyda'u teuluoedd | Gorau po uchaf | 51.92% | 68% | 54% | 58% |
| % o blant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o'r lleoliad gofal yn ystod y flwyddyn (D.S. Nid yw'r mesur hwn yn cynnwys plant sy'n dychwelyd i'w cartref ond heb gael eu rhyddhau o ofal) | Gorau po uchaf | 24.02% | 12% | 8% | 12% |
| Amser ar gyfartaledd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Gorau po isaf | 203 diwrnod | 185 diwrnod | 178 diwrnod | 185 diwrnod |
| Ail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Gorau po isaf | 1.14% | 5.4% | 0% | 5.5% |

| ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | Ein targed yn 2019/20 | perfformiad 2019/20 hyd yma | ein targed CC3 ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| % o ofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu | Gorau po uchaf | 57.78% | 75% | Amherthnasol – dim angen yr arolwg gan Lywodraeth Cymru bellach | 75% (2016/17) |
| % (a nifer) teuluoedd a gefnogir gan y Rhaglen Cymorth Teuluoedd sydd wedi gweld gwelliant y gellir ei ddangos mewn o leiaf 3 canlyniad | Gorau po uchaf | 83.51%<br>81 | 95% | 78.46%<br>51 | 95% (2016/17) |
| % o achosion lle rhwystrwyd digartrefedd (a66) | Gorau po uchaf | 54.59% | 55% | 61.73% | 60% |
| % y bobl y mae s75 yn ddyledus iddynt y rhyddhawyd y ddyletswydd honno | Gorau po uchaf | 68.04% | 65% | 82.46% | 70% |
| % y 'Bobl Sy'n Derbyn Cefnogaeth' sy'n cyflawni'r canlyniadau a ganlyn<br><br>SP1: Teimlo'n Ddiogel<br>SP6: Rheoli Arian<br>SP9: Yn Gorfforol Iach<br>SP10: Yn Feddyliol Iach | Gorau po uchaf | 92.89%<br>91.51%<br>91.84%<br>90.21% | 62%<br>58%<br>59%<br>54% | 94.36%<br>93.84%<br>92.87%<br>91.32% | 62%<br>58%<br>59%<br>54% |
| % o oedolion (16+) yn cymryd rhan mewn cymorth cyflogadwyedd sy'n symud ymlaen i waith | Gorau po uchaf | 22.65% | 18% | 26.83% | 18% |

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Cynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Mawrth 2020**

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud sylwadau ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk